BRITISH COUNCIL

# Gemau'r Gymanwlad 2022 Adnodd i Ysgolion

Cafodd yr adnodd yma ei lunio i ddathlu Gemau'r Gymanwlad 2022 a'r gwaith parhaus y mae'r Gymanwlad yn ei wneud i wella bywydau ei dinasyddion

Gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid

YOUTH SPORT TRUST



# Cynnwys


**Canllaw i athrawon** 4

**Ar gyfer pwy mae'r adnodd yma?** 5

**Beth fydd fy nysgwyr yn ei ddysgu?** 6

**Sut ydw i'n addasu'r sesiynau ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd?** 7

**Sut mae'r adnodd wedi cael ei drefnu?** 8

**Sut ydw i'n cysylltu gydag ysgolion eraill?** 10

**Birmingham, cartref Gemau'r Gymanwlad 2022** 12

**Gemau'r Gymanwlad 2022** 13

**Beth Nesaf?** 14

**Pwy yw'r partneriaid?** 15

**Gweithgaredd Dysgu Un** – Beth yw'r Gymanwlad? 16

**Gweithgaredd Dysgu Dau** – Dros beth mae'r Gymanwlad yn sefyll heddiw? 24

**Gweithgaredd Dysgu Tri** – Gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad 33

**Gweithgaredd Dysgu Pedwar** – Beth mae'r Gymanwlad yn ei wneud heddiw i hybu gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad**?** 40

**Gweithgaredd Dysgu Pump** – Fy lle i yn y Gymanwlad 48

**Gweithgaredd Dysgu Chwech** – Cysylltu ar draws y Gymanwlad 56

**Gweithgaredd Dysgu Saith** – Ysgogi fy nghymuned 64

**Gweithgaredd Dysgu Wyth** – Cloddio ychydig yn ddyfnach 72

**Gweithgaredd Dysgu Naw** – Gŵyl o chwaraeon a diwylliant y Gymanwlad 80

**Gweithgaredd Dysgu Deg** – Dathliad o chwaraeon a diwylliant y Gymanwlad 88

**Adnoddau athrawon** 97


**Oeddech chi'n gwybod bod tua 30% o bobl y byd yn byw yn y Gymanwlad? Mae hynny bron yn ddau biliwn a hanner o oedolion a phlant.**



# Canllawiau i athrawon

**Oeddech chi'n gwybod bod dros 60% o'r 2.4 biliwn o bobl sy'n byw yn y Gymanwlad yn iau na thri deg oed?**

Cafodd y pecyn adnoddau yma ei luno i ddathlu Gemau'r Gymanwlad 2022 a'r gwaith parhaus y mae'r Gymanwlad yn ei wneud i wella bywydau ei dinasyddion, yn enwedig ei dinasyddion iau.

Mae'n cynnwys cyfres o weithgareddau addysgu a dysgu y gall athrawon eu defnyddio i gynyddu ymwybyddiaeth o'r Gymanwlad a'i gwerthoedd wrth feithrin gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymddygiadau sy'n hanfodol i lwyddiant pobl ifanc ym maes addysg, cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth a sicrhau eu bod yn cyfrannu'n gadarnhaol i'w cymunedau a chymdeithas yn gyffredinol.





Mae'n dangos y potensial i bobl ifanc i deimlo fod ganddynt gysylltiad â'u cymuned leol, eu gwlad a'r Gymanwlad. Mae hefyd yn rhoi cyfle gwych iddynt fod yn greadigol a dathlu diwylliant ac unigoliaeth.

# Ar gyfer pwy mae'r adnodd yma?

Cafodd yr adnodd yma ei lunio i'w ddefnyddio gyda dysgwyr tua 7-11 oed yn unrhyw wlad yn y Gymanwlad. Mae'n hawdd addasu'r sesiynau ar gyfer dysgwyr 11-14 oed hefyd.

Mae'r adnodd yn cynnwys deg o sesiynau dysgu. Er eu bod wedi cael eu llunio i ddilyn ei gilydd yn eu trefn, gellir defnyddio pob un ohonynt fel sesiynau unigol hefyd.

Mae'r adnodd ar gael ar-lein ond gellir ei lawrlwytho hefyd fel cyfres o gynlluniau gwersi a deunyddiau ategol copi caled.

# Beth fydd fy nysgwyr yn ei ddysgu?

Bydd yr adnodd yn helpu eich dysgwyr i gynyddu eu gwybodaeth am y Gymanwlad a'u helpu i ddeall mwy am ei hanes, strwythur a sut mae'n gweithio i wella bywydau ei 2.4 biliwn o ddinasyddion.

Bydd eich dysgwyr yn datblygu sgiliau trosglwyddadwy hollbwysig fel ymchwilio, cyfathrebu, cydweithio, gwneud penderfyniadau ac arweinyddiaeth.

Bydd yr adnodd yn cyflwyno gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad, sef Dyngarwch, Tynged a Chydraddoldeb, i'ch dysgwyr drwy sesiynau sy'n archwilio pynciau fel cydraddoldeb rhyw, mudo, gwahaniaethu, mynediad i addysg a dathlu amrywiaeth.

Byddant yn cael eu hannog i greu cysylltiadau cynaliadwy a hirdymor gyda phobl ifanc o wledydd eraill ledled y Gymanwlad, a meithrin goddefgarwch, empathi a dealltwriaeth ddyfnach o ddiwylliannau gwahanol.

# Sut ydw i'n addasu'r sesiynau ar gyfer gwahanol oedrannau a galluoedd?



Mae'r sesiynau'n darparu syniadau, canllawiau ac awgrymiadau am bethau y gellir eu haddysgu a sut y gellir eu cyflwyno, ond wrth gwrs bydd athrawon eisiau eu haddasu ar gyfer eu cyd-destun penodol eu hunain ac i ateb gofynion eu dysgwyr.

- Un ffordd o wneud hynny yw mabwysiadu'r dull **'gwneud y peth, troi'r peth, dyfnhau'r peth'**.
- Wrth lunio'r gweithgareddau hyn rydym wedi ceisio sicrhau fod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan ynddynt, ac yn gallu eu **'gwneud'**.
- I sicrhau bod dysgwyr iau neu ddysgwyr llai hyderus yn gallu cyfranogi, gall yr athrawes/athro 'droi'r' gweithgaredd drwy symleiddio tasg. Er enghraifft, yn hytrach na gofyn i'r dysgwyr ysgrifennu darn estynedig, fe allai'r athrawes/athro ofyn iddynt lunio rhestr o 'eiriau pwysig'.
- I wneud gweithgaredd yn fwy heriol ar gyfer dysgwyr hŷn neu ddysgwyr mwy hyderus, gall yr athrawes/athro gymryd tasg a'i 'dyfnhau'. Er enghraifft, gallent gyflwyno darn ysgrifenedig estynedig i'r dysgwyr, a'i 'ddyfnhau' drwy ofyn iddynt ei newid i fformat gwahanol – fel cyflwyniad, ffilm fer neu adnodd rhyngweithiol ar-lein.

# Sut mae'r adnodd wedi cael ei drefnu?

Mae'r adnodd yn cynnwys deg o weithgareddau dysgu. Rydym wedi llunio'r sesiynau i fod mor hyblyg â phosib fel y gellir eu cyflwyno un ar ôl y llall yn eu trefn, neu eu defnyddio fel sesiynau unigol ar eu pen eu hunain.

Gall ysgolion ac athrawon benderfynnu hyd pob sesiwn drostynt eu hunain, yn dibynnu ar: oed a gallu'r dysgwyr; sut y mae'r sesiynau'n cefnogi cwricwlwm cyffredinol yr ysgol; brwdfrydedd ac eiddgarwch y dysgwyr; a pha mor fanwl mae'r athrawes/athro am archwilio pwnc penodol.

Mae'r holl adnoddau ategol wedi cael eu darparu ar ffurf copi caled a/neu dolen i wefan.

Mae pob sesiwn yn cael ei chyflwyno a'i chrynhoi gan un o'n llysgenhadon o fyd athletau – athletwyr elît sydd â chysylltiad personol agos â'r Gymanwlad a Gemau'r Gymanwlad. Bydd y llysgenhadon hyn yn dod â'r sesiynau'n fyw drwy rannu eu profiadau o fyd chwaraeon neu hanes eu bywydau – i danio brwdfrydedd eich dysgwyr a sbarduno eu hawydd i ddysgu mwy am y pynciau a'r themâu perthnasol iawn hyn.

**Mae pob sesiwn yn dilyn yr un drefn. Ein nod yw cwtogi'r amser cynllunio i athrawon a sicrhau'r effaith orau bosib ar gynydd a chyflawniadau eu dysgwyr.**

**Cam 1:**
**Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**

↓

**Cam 2:**
**Canlyniadau Dysgu**

↓

**Cam 3:**
**Rhannu gwybodaeth newydd**

↓

**Cam 4:**
**Adeiladu Dysgu**

↓

**Cam 5:**
**Cymhwyso Dealltwriaeth**

↓

**Cam 6:**
**Adolygu**

## 1
### Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

Mae'r cam cyntaf yma'n cyflwyno cyd-destun y wers. Mae'n edrych ar sut mae'r cynnwys yn cyd-daro gydag amcanion ehangach y modiwl ac annog y dysgwyr i feddwl am yr hyn y maent yn ei wybod, ei ddeall ac yn gallu ei wneud yn barod. Gellir defnyddio cwestiynau eithaf bras ac agored i gychwyn sgyrsiau, neu gwestiynau mwy penodol sy'n profi'r hyn a ddysgwyd yn flaenorol.

## 2
### Canlyniadau Dysgu

Mae'r cam yma'n sicrhau fod y dysgwyr yn deall y canlyniadau a ddisgwylir o'r wers, a deall sut y gellir llwyddo i wireddu hynny. Mae'n defnyddio disgrifiadau sy'n cydweddu'n agos â **Thacsonomeg Bloom**.

## 3
### Rhannu gwybodaeth newydd

Gellir rhannu'r wybodaeth newydd yma, sy'n allweddol i sicrhau fod y dysgwyr yn cyrraedd cam nesaf eu proses ddysgu, drwy ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau sy'n adnabyddus i bob athrawes/athro – darllen, gwrando, sylwi, cyfranogi.

## 4
### Adeiladu Dysgu

Yn y cam yma, bydd y dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau (mewn grwpiau neu'n unigol) sy'n datblygu'r sgiliau a amlinellwyd ar gyfer y canlyniadau dysgu. Yn ddelfrydol, bydd y gweithgareddau yma'n defnyddio amrywiaeth o ddulliau gwahanol gan ddarparu ar gyfer gwahanol ddewisiadau dysgu a galluoedd y dysgwyr a'u datblygu.

## 5
### Cymhwyso Dealltwriaeth

Dyma'r cyfle i ddysgwyr ddangos yr hyn y maent wedi ei ddysgu. Gall hyn fod ar ffurf darnau ysgrifenedig, cyflwyniadau, arddangosiadau, perfformiadau, trafodaethau neu bethau y maent wedi eu creu.

## 6
### Adolygu

Cyfle i'r dysgwyr ystyried os ydynt wedi ateb gofynion y canlyniadau dysgu a'r camau sydd angen iddynt eu cymryd nesaf yn ogystal â meddwl am sut y maent wedi defnyddio strategaethau gwahanol ar gyfer y dysgu (meta-wybyddiaeth).

# Sut ydw i'n cysylltu gydag ysgolion eraill?

Mae gweithio mewn partneriaeth gydag ysgolion mewn gwledydd tramor yn rhoi cyfle bendigedig i ddysgwyr ddysgu am ddiwylliannau newydd ac archwilio pynciau byd-eang.

Efallai bod gyda'ch ysgol gysylltiadau o'r fath yn barod, neu efallai bod gyda chi eich cysylltiadau eich hunan; os nad oes cysylltiadau o'r fath gennych gall **Offeryn Ffeindio Partner y British Council** eich helpu i feithrin cysylltiadau gydag ysgolion eraill sy'n awyddus i gydweithio - ym mhob rhan o'r byd – am ddim.

Rydym yn gwybod fod dechrau cydweithio ac yna cynnal y momentwm yn allweddol o ran sicrhau eich bod yn elwa i'r eithaf ar eich profiad. Mae gan y British Council ganllawiau ymarferol i'ch helpu **i ddechrau cydweithio ar-lein**, yn ogystal â **phecyn cymorth** a chefnogaeth i'ch helpu **i gynnal partneriaethau cryf ac effeithiol**.

Cewch hyd i ragor o wybodaeth am Gysylltu Dosbarthiadau **yma**.

## #CommonwealthConnections

Un o brif amcanion yr adnodd yma yw cryfhau cysylltiadau, meithrin perthnasoedd a gwella dealltwriaeth rhwng ysgolion a phobl ifanc ledled y Gymanwlad.

Mae llawer o gyfleoedd yn yr adnodd yma i chi ddathlu a rhannu syniadau gwych eich dysgwyr a'r gwaith ardderchog y maent yn ei greu.

Defnyddiwch yr hashnod #CommonwealthConnections i rannu'r hyn yr ydych yn ei wneud fel ysgol ac i weld beth mae ysgolion eraill wedi bod yn ei wneud. Mae'r hashnod yn ymddangos drwy gydol yr adnodd i'ch atgoffa i'w ddefnyddio - i rannu ffotograffau, fideos, gwaith celf, darnau ysgrifenedig ac unrhyw beth arall yr ydych yn credu y bydd disgyblion a/neu eu hathrawon werthfawrogi a'i fwynhau.

Oni fyddai'n wych petaech chi'n gallu defnyddio hyn fel cyfle i gysylltu'n fwy uniongyrchol gydag ysgolion eraill ymhob cwr o'r Gymanwlad sydd wedi bod yn astudio'r un pethau â'ch dysgwyr chi? Gallai fod yn ffordd ardderchog o gyfoethogi eu profiad dysgu a chryfhau cysylltiadau gyda phobl ifanc o wahanol wledydd a diwylliannau.



# Birmingham, cartref Gemau'r Gymanwlad 2022

Mae Gemau 2022 yn cael eu cynnal yn Birmingham, dinas yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr. Gyda dros filiwn o drigolion, dyma'r ail ddinas fwyaf yn Lloegr.

Birmingham yw'r ddinas fwyaf amrywiol yn Lloegr - gall ei thrigolion olrhain eu treftadaeth yn ôl i bob rhan o'r byd, gan gynnwys bron pob un o wledydd y Gymanwlad. Mae Birmingham hefyd yn un o ddinasoedd ifancaf Ewrop – mae bron i 40% o'i phoblogaeth yn iau na 25 oed.

## Dyma rai ffeithiau diddorol am Birmingham:

1. **Mae'n gartref i bump o brifysgolion a thros 73,000 o fyfyrwyr.**
2. **Mae mwy o gamlesi yn Birmingham nag sydd yn Fenis (mae dros 56 cilomedr o gamlesi yma). Mae hefyd yn un o ddinasoedd mwyaf gwyrdd y Deyrnas Unedig gyda dros 8,000 o aceri a 600 o barciau a mannau agored. Yn ôl cyngor y ddinas, mae hynny'n fwy na Paris!**
3. **Cafodd 'The Hobbit' a 'The Lord of the Rings' eu hysbrydoli gan bobl a llefydd yn Birmingham gan fod yr awdur J.R.R. Tolkein yn dod o'r ddinas.**
4. **Mae Cwstard Bird's, Siocled Cadbury, Siocled Yfed Bournville, Te Ty-phoo a Saws HP i gyd yn dod o Birmingham.**
5. **Cafodd tennis ei ddyfeisio yn Birmingham yn 1859 – ar lawnt masnachwr o Sbaen a oedd yn byw yn y ddinas. Fe wnaeth Augurio Perera a'i ffrind Harry Gem ddyfeisio'r gêm newydd drwy gyfuno elfennau o gampau eraill o'r cyfnod.**

# Gemau'r Gymanwlad 2022

**Bydd campau Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 yn cael eu cynnal mewn canolfannau ledled Birmingham a Gorllewin y Canolbarth - o 28 Gorffennaf tan 8 Awst 2022.**

Bydd 72 o wledydd yn cystadlu mewn ugain o gampau gwahanol.

Bydd Birmingham 2022 yn cyflwyno'r rhaglen fwyaf erioed o gampau menywod a champau para; ac am y tro cyntaf erioed bydd yn cynnwys mwy o gampau menywod na champau dynion.

Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 fydd y Gemau carbon-niwtral cyntaf erioed.

Gemau 2022 fydd y gystadleuaeth aml-chwaraeon fwyaf i'w chynnal yn Lloegr ers 10 mlynedd ac fe fydd yn cael ei darlledu i gynulleidfa o 1 biliwn.




# Beth nesaf?

Rydym yn gobeithio y bydd yr adnodd yma'n eich ysbrydoli chi a'ch dysgwyr i ddysgu mwy am y **Gymanwlad** a'r gwaith y mae'n ei wneud i gefnogi **pobl ifanc**.

Rydym yn gobeithio y byddwch yn manteisio ar **Gemau'r Gymanwlad 2022** i ysgogi eich ysgol i ddysgu campau newydd ac annog eich cymuned i wneud mwy o weithgarwch corfforol.

Yn olaf, rydym yn gobeithio y bydd y cysylltiadau y byddwch yn eu datblygu gydag ysgolion, cymunedau, athrawon a dysgwyr o gwmpas y byd yn parhau i'r dyfodol, gan helpu i feithrin dealltwriaeth, goddefgarwch a chydweithio ledled y Gymanwlad am flynyddoedd lawer.

# Pwy yw'r partneriaid?

Cafodd yr adnodd yma ei ddatblygu drwy bartneriaeth rhwng y British Council a'r Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid.

## Y British Council

Mae'r **British Council** yn meithrin cysylltiadau, dealltwriaeth ac ymddiriedaeth rhwng pobl yn y Deyrnas Unedig a gwledydd eraill drwy gelfyddydau a diwylliant, addysg a'r iaith Saesneg. Rydym yn gweithio mewn dwy ffordd – yn uniongyrchol gydag unigolion i weddnewid eu bywydau, a gyda llywodraethau a phartneriaid i wneud gwahaniaeth mawr dros dymor hirach, er budd miliynau o bobl ledled y byd.

## Yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid

Elusen i blant yw'r **Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid** sy'n gweithio i sicrhau fod pob plentyn yn cael cyfle i fwynhau manteision trawsnewidiol chwarae a chwaraeon. Mae gyda ni chwarter canrif o brofiad o arloesi gyda ffyrdd newydd o ddefnyddio chwaraeon i wella lles plant a chreu cyfle am well dyfodol.

## Gweithgaredd Dysgu Un

# Beth yw'r Gymanwlad?

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

## Beth yw gwreiddiau'r Gymanwlad?

Cyfle i archwilio hanes ac amrywiaeth y Gymanwlad, a rhai o'r heriau hanesyddol y mae wedi eu hwynebu yn ogystal â'r heriau y mae'n eu hwynebu heddiw.

## Pwy sy'n rhan o'r Gymanwlad?

Ffeithiau allweddol am y gwledydd sy'n aelodau.

## Dros beth mae'r Gymanwlad yn sefyll heddiw?

Archwilio ymrwymiad y Gymanwlad i addysg merched.

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

- Dyma **fideo gan un o'n hathletwyr** yn cyflwyno'r gweithgareddau drwy ofyn cyfres o gwestiynnau:




Lesley Owusu

- Ydych chi wedi clywed am y 'Gymanwlad' ('Commonwealth') neu 'Gemau'r Gymanwlad' ('Commonwealth Games')?
- Beth yw gwahanol ystyron y gair 'common' ?
- Beth mae 'wealth' yn ei olygu?
- Pa wledydd sy'n rhan o'r Gymanwlad?
- Pam 'dych chi'n meddwl eu bod nhw'n rhan o'r grŵp yma?

## Canllaw i athrawon

- **Chwaraewch y clip fideo byr (v1) lle mae ein hathletwr yn gofyn cyfres o gwestiynau allweddol i'r dysgwyr.**
- **Mae'r fideo'n cynnwys darnau ffilm o rhai o wledydd y Gymanwlad yn cystadlu mewn Gemau blaenorol.**
- **Nod y fideo yw amlygu'r hyn y mae'r dysgwyr yn ei wybod yn barod am y Gymanwlad a'u cymell i ddechrau meddwl am natur ei amcanion ehangach – gan ddefnyddio'r gair 'Commonwealth', a'r ddau air 'common' a 'wealth', fel man cychwyn.**

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- **Rhowch enghreifftiau** o'r gwahanol ystyron sydd gan y geiriau 'Common' a 'Wealth' a sut mae hynny'n disgrifio amcanion y Gymanwlad.
- **Gwnewch grynodeb** o'r nodweddion sy'n gyffredin i wledydd y Gymanwlad.
- **Ceisiwch greu** diffiniad gyda'ch gilydd o beth mae bod yn rhan o'r Gymanwlad yn ei olygu.

## Canllaw i athrawon

**Esboniwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd i ddarganfod a deall beth yw'r 'Gymanwlad'**

- **Sut y dechreuodd?**
- **Sut y mae wedi newid?**
- **Beth mae'n ceisio'i gyflawni yn y byd modern?**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- Ras gyfnewid – mewn timoedd: Gofynnwch i'r dysgwyr ysgrifennu beth maen nhw'n ei feddwl yw ystyr y gair 'common' / 'cyffredin' (3 munud).
- Edrychwch ar atebion y timoedd eraill (2 funud).
- Ailadroddwch y gweithgaredd yma gyda'r gair 'wealth' / 'cyfoeth' (5 munud).
- Fel dosbarth, cytunwch ar ddiffiniad ar gyfer y ddau air (5 munud).



**Mae'r Gymanwlad yn deulu bywiog o 53 o wledydd sy'n ymestyn ar draws bob cyfandir a chefnfor.**

## Canllaw i athrawon

- **Rhannwch y dosbarth yn dimoedd o 4-6 dysgwr.**
- **Gosodwch ddarn o bapur a phen/pensil tua 10 metr oddi wrth bob grŵp. Rhaid i bob dysgwr yn ei dro redeg at y papur ac ysgrifennu un gair ar y tro.**
- **Rhowch amser i'r dysgwyr weld syniadau'r grwpiau eraill.**
- **Nawr, gallwch gyflwyno diffiniadau o'r geiriadur / thesawrws.**
- **Esboniwch fod gwreiddiau'r gair 'common' / 'cyffredin' yn disgrifio 'rhywbeth sy'n cael ei rannu' yn hytrach na disgrifio rhywbeth 'rhad'/ 'diwerth' neu rywbeth 'brwnt'/ 'aflednais'. Rhowch enghreifftiau, fel 'tir comin' - tir sy'n agored i bawb; neu 'nod cyffredin' – rhywbeth y mae grŵp cyfan o bobl yn gweithio gyda'i gilydd i'w gyflawni.**
- **Esboniwch fod 'wealth / 'cyfoeth' yn cyfeirio'n wreiddiol at fwy nag arian yn unig – gall hefyd gyfeirio at iechyd neu hapusrwydd neu lwyddiant.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Dylai pob grŵp gyflwyno diffiniad ar gyfer 'Commonwealth' a'i ysgrifennu ar ddarn mawr o bapur – i'w rannu gyda'r grwpiau eraill (5 munud).
- Hefyd, gallent gyflwyno syniad/diffinad y grŵp drwy slogan, baner neu ddarlun (10 munud).
- Gofynnwch i un neu ddau aelod o bob grŵp i gyflwyno eu syniadau i weddill y dosbarth (5 munud).

**#CommonwealthConnections**

## Canllaw i athrawon

Gallech gynnig awrgymiadau neu rai geiriau allweddol i bob grŵp - i'w defnyddio wrth ffurfio eu diffiniadau.

Diwylliannau
Pobl
Rhannu
Gwella
Gwell
Hapusach
Gwledydd
Iachach
Heddwch
Gyda'n gilydd

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Rhowch **fap o'r byd ar ddalen A4 (R2)** i bob grŵp a rhestrwch wledydd y Gymanwlad yn nhrefn yr wyddor.
- Rhaid i bob grŵp ffeindio lleoliad nifer penodol o wledydd a'u nodi ar eu mapiau (10 munud).
- Beth ydych chi'n meddwl ddaeth â'r gwledydd yma at ei gilydd? (5 munud).
- Beth yw'r newidiadau pwysicaf sydd wedi digwydd o ran sut mae'r Gymanwlad yn gweithio heddiw? (5 munud).

## Canllaw i athrawon

- Rhowch ddetholiad o wledydd i bob grŵp fel bod y dosbarth cyfan yn chwilio am bob un o'r 53 gwlad - er mwyn eu dangos ar fap.
- Ar ôl gwirio eu hatebion, gall pob grŵp ychwanegu eu gwledydd i fap mwy o faint (A3) - i greu map gan y dosbarth cyfan.
- Rhannwch adnodd **R1** o hypergyswllt **L1: Sut dechreuodd y Gymanwlad?**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Cymharwch eich disgrifiadau cyntaf gyda Siarter y Gymanwlad.
- Pa mor agos ydyn nhw? Sut maent yn cymharu?
- Sut mae'r Gymanwlad yn wahanol heddiw - o'i chymharu â phan gafodd ei sefydlu?
- Ydyn ni'n credu bod y Gymanwlad yn sefydliad tecach a mwy cyfiawn heddiw?
- Pam?



**Oeddech chi'n gwybod bod tua 30% o bobl y byd yn byw yn y Gymanwlad? Mae hynny bron yn ddau biliwn a hanner o oedolion a phlant.**

## Canllaw i athrawon

- **Rhannwch adnodd R3: Siarter Y Gymanwlad gyda'r dysgwyr.**
- **Dangoswch glip fideo V2, sy'n crynhoi canlyniadau dysgu sesiwn heddiw a hefyd yn cyflwyno'r sesiwn nesaf sy'n edrych ar sut y mae'r Gymanwlad yn ceisio sicrhau cymdeithas decach i'w haelodau.**



Lesley Owusu

- **Her ar gyfer y tro nesa: "Pa ddwy wlad yw'r diweddaraf i ymuno â'r Gymanwlad? Sut maen nhw'n wahanol i'r lleill?"**

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Dau

# Beth mae'r Gymanwlad yn ei gynrychioli heddiw?

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

## Beth yw gwreiddiau'r Gymanwlad?

Cyfle i archwilio hanes ac amrywiaeth y Gymanwlad, a rhai o'r heriau hanesyddol y mae wedi eu hwynebu yn ogystal â'r heriau y mae'n eu hwynebu heddiw.

## Pwy sy'n rhan o'r Gymanwlad?

Ffeithiau allweddol am y gwledydd sy'n aelodau.

## Dros beth mae'r Gymanwlad yn sefyll heddiw?

Archwilio ymrwymiad y Gymanwlad i addysg merched.

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

- “Wnaethoch chi ffeindio pa ddwy wlad yw'r diweddaraf i ymuno â'r Gymanwlad? Beth sy'n arbennig amdanynt?”

- Dyma **fideo gan athletwr** yn cyflwyno'r gweithgareddau:




**Lesley Owusu**

- Mae'r fideo'n esbonio beth yw ‘Cymanwlad’ sef, “..grŵp o wledydd yn gweithio gyda'i gilydd i wireddu nod cyffredin – i wneud y gwledydd hynny'n llefydd gwell i bawb fyw ynddynt gyda'i gilydd. Heddiw, rydyn ni'n mynd i edrych ar beth mae'r Gymanwlad yn ei wneud i helpu i sicrhau fod merched a menywod ifanc yng ngwledydd y Gymanwlad yn cael yr addysg y mae ganddynt yr hawl i'w gael.”

## Canllaw i athrawon

- **Rwanda a Mosambîc yw'r ddwy wlad ddiweddaraf i ymuno â'r Gymanwlad - yr unig ddwy wlad heb unrhyw gyswllt blaenorol â'r Gymanwlad cyn ymuno. Efallai y gallwch gael trafodaeth sydyn am beth wnaeth eu hysgogi i ymuno â'r Gymanwlad.**

- **Chwaraewch y clip fideo byr (V3) sy'n cyflwyno'r pwnc - lle mae athletwr yn sôn am yr heriau a wynebodd fel menyw ifanc mewn byd chwaraeon lle mae dynion yn tra-arglwyddiaethu.**

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- **Ffeindio** a nodi'r rhesymau pam fod merched yn wynebu mwy o heriau na bechgyn i gael addysg mewn rhai rhannau o'r byd.
- **Dewis** cyfrwng i redeg ymgyrch dros addysg merched.
- **Creu** ymgyrch i eirioli dros addysg merched.

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch fod merched, mewn llawer o rannau o'r byd, gan gynnwys y Gymanwlad, a hyd yn oed yn y Deyrnas Unedig, yn aml yn wynebu mwy o heriau na bechgyn i sicrhau'r addysg y mae ganddynt yr hawl i'w gael.**
- **Rydyn ni'n mynd i archwilio rhai o'r rhesymau am hyn, ac rydyn ni'n mynd i greu ymgyrch i eirioli dros bwysigrwydd addysg merched i unigolion, cymunedau a'r Gymanwlad gyfan.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- Rhoddir darn byr i bob tîm ei ddarllen gyda'i gilydd (5 munud).
- Gyda'i gilydd, rhaid iddynt greu sgript munud o hyd sy'n esbonio'r hyn y maent wedi'i ddysgu (5 munud).
- Mae un aelod o'r tîm yn aros lle maent – nhw fydd yr 'arbenigwr'. Mae aelodau eraill y tîm yn gweithio fel 'ymchwilwyr' gan fynd o gwmpas i holi 'arbenigwyr' y timoedd eraill. Rhaid iddynt wneud nodiadau am yr hyn y maent wedi ei ddysgu gan yr 'arbenigwyr' a rhannu hynny gyda gweddill eu grŵp (10 munud).
- Rhaid i'r tîm greu un ddogfen ymchwil gynhwysfawr – i'w helpu gyda'r dasg nesaf.



**Mae'r Gymanwlad yn credu fod gan bobl hawliau - fel yr hawl i gael addysg a gofal iechyd.**

## Canllaw i athrawon

- **Rhannwch y dosbarth i chwech o dimoedd. Rhowch un rhan / dyfyniad o adnodd R4: Addysg Merched i bob tîm.***
- **Pennwch le yn yr ystafell i bob un o'r timoedd - lle gall eu 'harbenigwr' rannu'r hyn y maent yn ei wybod am y pwnc gydag 'ymchwilwyr' o'r timoedd eraill.**
- **Ar ôl 10 munud, dylai fod pob tîm wedi llunio darlun cyflawn o'r holl wybodaeth.**
- **Ewch o gwmpas y timoedd i wneud yn siwr bod darlun cywir ganddynt, gan roi help iddynt lenwi unrhyw fylchau neu gywiro unrhyw gamgymeriadau.**

*Noder - mae yna adran o'r gweithgaredd sy'n cyfeirio at drais yn erbyn merched; efallai y byddwch am hepgor yr adran honno ar gyfer dysgwyr iau neu ddysgwyr mwy sensitif.

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Bydd bob tîm yn creu ymgyrch i hyrwyddo pwysigrwydd addysg merched. Pwy yw ein cynulleidfa a beth yw ein dulliau cyflwyno? (5 munud).
- Dylai pob tîm **benderfynu** pa fath o ymgyrch maen nhw'n mynd i'w chreu ar sail y grŵp cynulleidfa sydd wedi cael ei roi iddynt (5 munud).
- Gofynnwch i'r timoedd **gyfiawnhau** eu dewis wrth weddill y dosbarth (5 munud).
- "Rydyn ni wedi dewis defnyddio...achos bydd yn... ..ar gyfer ein cynulleidfa o..."

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch fod pob tîm yn mynd i greu eitem i hyrwyddo pwysigrwydd addysg merched.**
- **Casglwch syniadau am ba fath o ymgyrch y gellir ei chynnal a'r cyfryngau y gellir eu defnyddio – llythyr mewn papur newydd, hysbyseb deledu neu ar-lein, poster, cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa.**
- **Casglwch syniadau am y math o gynulleidfa y bydd yr ymgyrch yn ceisio ei chyrraedd – pobl ifanc, rhieni, athrawon, gwleidyddion, cyflogwyr, pobl sy'n gweithio yn y cyfryngau.**
- **Rhowch un yr un o'r chwe grŵp cynulleidfa yma i bob un o'r chwe thîm yn eu tro – bydd gofyn i'w hymgyrch ganolbwyntio ar y grŵp cynulleidfa yma.**
- **Ar gyfer dysgwyr iau – gofynnwch iddyn nhw greu slogan sy'n crynhoi'r neges ac esbonio pam y maen nhw wedi dewis y slogan yna, gan annog pob dysgwr i gyfrannu i'r esboniad.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- "Beth yw'r ffeithiau am addysg merched?"
- "Beth yw rhai o'r rhesymau sy'n rhwystro merched rhag derbyn addysg?"
- "Beth yw'r manteision i gymuned sy'n darparu'r addysg i ferched y mae ganddynt hawl i'w dderbyn?"
- Wrth ddefnyddio'r tri chwestiwn yma fel strwythur, dylai bob tîm ddefnyddio eu nodiadau gwreiddiol, yn ogystal ag unrhyw ddeunyddiau ymchwil eraill y gallant eu ffeindio, i greu un o'r gwahanol fathau o ymgyrch – taflenni gwybodaeth, posteri, hysbyseb ar gyfer radio / teledu / ar-lein, cyflwyniad ar gyfer cynulleidfa, llythyr.

**Mae'n cymryd ymdrechion arbennig i wella addysg i bawb, a chefnogi menywod a phobl ifanc i gychwyn a rhedeg eu busnesau eu hunain. Mae hefyd yn helpu i wella gwasanaethau iechyd.**

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch wrth y dysgwyr, pa bynnag ddull y maent yn ei ddefnyddio i greu'r ymgyrch a pha bynnag gynulleidfa maen nhw'n ei thargedu, fod pob tîm yn mynd i geisio ateb yr un tri chwestiwn.**
- **Gan fod hon yn dasg mor ben-agored, gall gymryd 15 munud os defnyddir y nodiadau gwreiddiol yn unig, neu gellir ei hymestyn yn sesiwn ymchwil tipyn hirach os ydych am i'r dosbarth archwilio'r pwnc yn fwy manwl.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

Cynhaliwch adolygiad byr o'r hyn a ddysgwyd:

- Pa mor llwyddiannus oedd eich ymgyrch o ran ateb y cyfarwyddyd (brîff) a roddwyd?
- Beth oedd pwyntiau gorau eich ymgyrch? Beth fyddech chi'n ei wneud hyd yn oed yn well y tro nesaf? (5 munud).
- Rhannwch y timoedd yn barau. Gofynnwch i bob person longyfarch ei phartner/bartner am rywbeth da y gwnaethon nhw i helpu i wireddu nod y tîm.

## Canllaw i athrawon

- **Rhowch amser i bob tîm gnoi cil ar ba mor dda y gweithion nhw i gyflawni'r dasg – gwnewch yn siŵr eu bod yn nodi sylwadau cadarnhaol am yr hyn y gwnaethon nhw ei gyflawni gyda'i gilydd fel tîm.**
- **Dangoswch glip fideo V4 sy'n crynhoi'r hyn y mae'r dosbarth wedi'i ddysgu heddiw am bwysigrwydd addysg merched i gymunedau a chymdeithas yn gyffredinol.**



Lesley Owusu

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Tri

# Gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae’r pynciau yma’n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae’r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

1. **Ymgyrchu dros Hawliau Dynol**
2. **Ymgyrchu dros addysg merched**
3. **Mudo a'r heriau a wynebir gan fudwyr yn y Gymanwlad**
4. **Beth allaf i wneud yn fy nghymuned i fynd i'r afael ag un o'r materion hyn?**

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

- **Fideo i gyflwyno'r pwnc**, sy'n cyflwyno rhai cwestiynau syml am Gemau'r Gymanwlad:




Montell Douglas

- "Ydych chi erioed wedi clywed am Gemau'r Gymanwlad?"
- "Ydych chi'n gwybod pa gampau a chwaraeon sy'n rhan o'r Gemau?"
- "Ydych chi'n gwybod ble y cafodd y Gemau diwethaf eu cynnal?"
- "Beth am y Gemau nesaf?"
- "Beth yw gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad?"

## Canllaw i athrawon

- **Dangoswch glip fideo V5**, sy'n esbonio beth yw Gemau'r Gymanwlad a beth yw gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad: dyngarwch, tynged a chydraddoldeb.
- Mae stori'r Windrush yn enghraifft wych o'r gwerthoedd hyn ar waith, a sut nad ydym, fel cymdeithas, yn llwyddo i'w gwireddu bob tro.

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- **Deall** gwreiddiau hanes mudo'r Windrush.
- **Distyllu** ystyr ac emosiynau drwy'r gair llafar a barddoniaeth.
- **Dehongli** ystyr ac emosiynau drwy symudiad a chelf.

**Mae'r Gymanwlad hefyd yn annog gwledydd sy'n aelodau i ofalu am hawliau dynol, sy'n golygu sicrhau fod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn gallu mwynhau rhyddid sylfaenol.**

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i archwilio stori am fudo - symud o un rhan o'r byd i ran arall.**
- **Byddant yn dysgu am rai o'r rhesymau a wnaeth yrru pobl i fudo o un rhan o'r Gymanwlad i ran arall wedi'r Ail Ryfel Byd, a rhai o'r heriau y bu'n rhaid iddynt eu hwynebu yn eu gwlad newydd.**
- **Mae'r rhain yn heriau cyffredin i lawer o fudwyr, hyd yn oed heddiw.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgaredd dysgu

- Rydyn ni'n mynd i edrych ar 'Stori'r Windrush'. Mae'r stori'n dechrau yn 1948, ac mae'n dal i redeg heddiw.
- **Gwyliwch y fideo** ac yna darllenwch y gerdd gyntaf, 'Hinglan's Cole', gyda'ch gilydd.
- Darllenwch yr ail gerdd, **'Windrush Child'**.

Mae cannoedd o ieithoedd yn cael eu defnyddio ledled y gymuned hon o 53 o wledydd.

## Canllaw i athrawon

- **Os ydyw ar gael, gwyliwch y fideo o ddolen L2, sy'n adrodd stori'r mudwyr cyntaf yn cyrraedd o'r Caribî.**
- **Mae'r ail gerdd yn cyflwyno stori'r Windrush drwy lygaid plentyn. Er bod yr iaith yn agosach i 'Saesneg safonol', mae'n fwy haniaethol na'r gerdd gyntaf. Darllenwch y gerdd gyda'ch gilydd fel dosbarth, gan stopio i egluro ystyr a gwneud yn siŵr fod pawb yn deall.**
- **Cyflwynwch adnodd R5 i'r dosbarth: Barddoniaeth y Windrush. Darllenwch y gerdd gyntaf gyda'ch gilydd fel dosbarth, gan stopio i nodi unrhyw eiriau neu ymadroddion anodd ac egluro ystyr a gwneud yn siŵr fod pawb yn deall.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Gweithiwch yn eich grwpiau i ateb y cwestiynau hyn, gan ddefnyddio'r wybodaeth a ddysgoch drwy ddarllen y cerddi a gwylio'r fideo.
- Dewiswch rai geiriau ac ymadroddion sy'n disgrifio argraffiadau cyntaf y bardd a'r bobl a gafodd eu cyfweld o Brydain. Oedd eu barn yn ffafriol? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?
- Petaech chi'n cael cyfle, pa dri chwestiwn hoffech chi eu gofyn i'r bardd neu'r bobl yn y fideo? (10 munud).

## Canllaw i athrawon

- **Rhannwch y dosbarth i grwpiau o 2 neu 3. Efallai y byddai'n werth sicrhau bod sgiliau iaith Saesneg da gan o leiaf un person ym mhob grŵp.**
- **Mae sawl ffynhonell wybodaeth yma - y cyflwyniad, y fideo, a'r cerddi. Os mai dim ond y cyflwyniad a'r gerdd gyntaf y gallwch eu defnyddio, maen nhw'n cynnwys darnau defnyddiol o wybodaeth.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Rhannwch y dosbarth i grwpiau bach.
- Gofynnwch iddyn nhw greu llun wedi'i rewi o grŵp o deithwyr ar fwrdd y Windrush wrth i'r llong gyrraedd Dociau Tilbury – gan ddefnyddio'r ffotograffau i'w hysbrydoli.
- Ar arwydd penodol, tapiwch bob dysgwr yn ei dro ar ei ysgwydd a gofynnwch iddynt ddatgelu beth sy'n mynd drwy feddwl y cymeriad y maent yn ei bortreadu ar yr union foment honno.

**#CommonwealthConnections**

## Canllaw i athrawon

- **Dangoswch y ffotograffau o adnodd R6 neu ddolen L3. Fel dosbarth, trafodwch beth mae'r lluniau hyn yn ei ddweud wrthym am y mudwyr cyntaf hynny ar fwrdd y Windrush. Edrychwch ar eu dillad; ystyriwch eu hoedran; ac edrychwch ar y gymysgedd o ddynion a menywod.**
- **Gallwch ddyfnhau'r gweithgaredd drwy ofyn i'r dysgwyr greu darn byr o ddrama, neu ddarn dawns byr, neu greu darluniadau i roi bywyd i'r gwaith.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Siaradwch am brofiadau aelodau o'r dosbarth o fudo – profiadau eu teuluoedd a/neu eu cymunedau.
- "Mae llawer o bobl ym mhob rhan o'r byd yn fudwyr neu'n ddisgynyddion i fudwwyr. Mae pobl wedi bod yn mudo ers miloedd o flynyddoedd. Mae'n rhan naturiol o hanes dynoliaeth."
- "Oes gyda chi stori am unrhyw aelodau o'ch teulu sydd wedi mudo rhywdro? Hoffech chi rannu'r stori gyda ni?"

## Canllaw i athrawon

**Rhannwch fideo V6 lle mae'r athletwr yn cyflwyno ail ran stori'r Windrush - am yr hyn ddigwyddodd i rai aelodau o genhedlaeth wreiddiol y Windrush a rhai o'u disgynyddion.**



Montell Douglas

**Os hoffech archwilio'r pwnc yma'n fwy manwl, mae adnoddau am ddim ar gael drwy ddolenni L4, L5 ac L6.**

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Pedwar

# Beth mae'r Gymanwlad yn ei wneud heddiw i hybu gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad?

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

1. **Ymgyrchu dros Hawliau Dynol**
2. **Ymgyrchu dros addysg merched**
3. **Mudo a'r heriau a wynebir gan fudwyr yn y Gymanwlad**
4. **Beth allaf i wneud yn fy nghymuned i fynd i'r afael ag un o'r materion hyn?**



# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau Dysgu

Dangoswch glip **fideo V7** sy'n atgoffa'r dysgwyr am stori'r Windrush o'r sesiwn ddiwethaf a chyflwyno sesiwn heddiw - sy'n edrych ar Ras Gyfnewid Baton y Frenhines wrth iddo deithio ledled y Gymanwlad.




Montell Douglas

**Maent yn cael eu cynnal bob pedair blynedd. Cafodd y gemau cyntaf erioed eu cynnal yn Hamilton yng Nghanada, gyda phedwar cant o athletwyr.**

## Canllaw i athrawon

- **Mae sesiwn heddiw'n canolbwyntio ar sut mae Ras Gyfnewid Baton y Frenhines yn codi ymwybyddiaeth am Gemau'r Gymanwlad, a sut mae hefyd yn gyfle i rannu'r neges am werthoedd y gemau – dynoliaeth, tynged a chydraddoldeb – ar draws gwledydd y Gymanwlad.**
- **Mae'n gyfle hefyd i edrych ar effaith parhaus Covid-19 gan y bydd yn effeithio ar lwybr taith a natur y Ras Gyfnewid yn 2021/22.**

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau Dysgu

- Dewiswch nodweddion sy'n cynrychioli'r dref/pentref neu'r wlad lle mae'r dysgwyr yn byw.
- Cynlluniwch wrthrych sy'n cynrychioli'r nodweddion hynny.
- Cyfiawnhewch eich dewis gan esbonio pam mai'r gwrthrych yma yw'r dewis gorau.

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch mai pwrpas sesiwn heddiw yw cynllunio symbol sy'n cynrychioli gwerthoedd y Gymanwlad a'r lle yr ydych yn byw.**
- **Bydd pob dysgwr yn cael cyfle i gyflwyno ei symbol a'i gynnig fel y symbol y dylid ei ddefnyddio i gynrychioli'r dosbarth cyfan neu'r ysgol gyfan pan fyddwch yn cynnal digwyddiad i ddathlu'r Gymanwlad.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- Gofynnwch i'r dysgwyr gymryd eu tro i **ddarllen erthygl R7** am Ras Gyfnewid Baton y Frenhines yn 2018, pan gafodd Gemau'r Gymanwlad eu cynnal ar yr Arfordir Aur yn Awstralia.
- **Defnyddiwch fap o'r byd** i ddangos lle mae'r Arfordir Aur.
- Gofynnwch a oes unrhyw un yn gwybod ym mhle mae Gemau 2022 yn cael eu cynnal.
- Ar fap o'r byd, dangoswch i'r dysgwyr lle mae Birmingham – ochr draw i'r byd o Awstralia.

**Yn 2022 rydym hefyd yn nodi Jiwbilî Platinwm Ei Mawrhydi'r Frenhines, sy'n dynodi 70 mlynedd ers iddi ddod yn Frenhines. Gan mai'r Frenhines yw Pennaeth y Gymanwlad, cyn bob un o'r Gemau mae hi'n ysgrifennu neges sy'n cael ei gosod yn y baton sy'n teithio o gwmpas y Gymanwlad fel rhan o Ras Gyfnewid Baton y Frenhines.**

## Canllaw i athrawon


- **Pwrpas y gweithgaredd yma yw cyflwyno Ras Gyfnewid Baton y Frenhines i'r dysgwyr fel symbol o Gemau'r Gymanwlad.**
- **Mae'r ffaith bod y gwledydd sy'n cynnal y Gemau yn 2018 a 2022 ar ochrau gwahanol o'r byd yn dangos pa mor fawr yw'r Gymanwlad.**
- **Efallai y gallech gyflwyno gweithgareddau mathemateg yma; wrth edrych ar y pellter rhwng yr Arfordir Aur a Birmingham, a faint o amser mae'n ei gymryd i deithio o'r naill i'r llall.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Rhannwch y dosbarth yn dimoedd o 3-5 dysgwr.
- Gofynnwch i bob tîm feddwl sut, efallai, y bydd Ras Gyfnewid Baton y Frenhines yn wahanol pan fydd yn cychwyn ym mis Hydref 2021 - gan y bydd yn rhaid ystyried rhai o sgil-effeithiau pandemig Covid-19.
- Gofynnwch i'r dysgwyr nodi'r geiriau a'r ymadroddion (yn y testun) sydd wedi dylanwadu arnynt wrth feddwl am ba newidiadau i'w gwneud.



**Mae Gemau'r Gymanwlad yn cael eu galw yn 'Gemau Cyfeillgar' achos maen nhw'n defnyddio chwaraeon i ddod â phobl o bob rhan o'r byd at ei gilydd.**

## Canllaw i athrawon

**Gallech ddefnyddio'r gweithgaredd yma fel cyfle i archwilio effeithiau parhaol Covid-19 ar rai o wledydd y Gymanwlad, gan gynnwys eich gwlad eich hun.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Cafodd y baton ei gynllunio i gynrychioli'r ddinas sy'n cynnal y Gemau. Dychmygwch petai'r Gemau'n cael eu cynnal yn y lle yr ydych chi'n byw.
- Beth yw gwerthoedd craidd y lle yr ydych chi'n byw? Beth yw'r pethau sy'n eich gwneud yn falch o'r lle yr ydych yn byw? Beth sy'n gwneud y lle yna'n unigryw?
- Lluniwch restr o eiriau sy'n crynhoi'r pethau gorau am y lle yr ydych chi'n byw.
- Nawr, gan ddefnyddio'r geiriau hynny fel man cychwyn, cynlluniwch eich baton eich hunan i gynrychioli'r lle yr ydych yn byw.
- Cyn creu eich fersiwn gorffenedig, esboniwch wrth aelod arall o'r dosbarth neu'r grŵp cyfan pam eich bod wedi gwneud y dewisiadau a chymryd y penderfyniadau a wnaethoch wrth gynllunio eich baton.
- Tynnwch ffotograffau o'r cynlluniau gorffenedig a rhannwch nhw fel rhan o arddangosfa.

**#CommonwealthConnections**

## Canllaw i athrawon

- **Rhowch enghreifftiau o'r gwahanol ddeunyddiau crai y gellid eu defnyddio i gynrychioli'r rhan o'r byd lle mae eich dysgwyr yn byw.**
- **Dangoswch adnodd R8, sy'n dangos gwahanol fatonau o Gemau'r Gymanwlad blaenorol.**
- **I herio'r dysgwyr i feddwl yn ddyfnach, gofynnwch iddynt am yr hyn y gallent ei ychwanegu i gynllun eu batonau i anrhydeddu dinasyddion y Gymanwlad a fu farw oherwydd pandemig Covid-19.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

Beth wnaeth i chi ddewis eich hoff gynllun? Am beth oeddech chi'n meddwl pan wnaethoch chi ei ddewis?

- Taw dyna'r un harddaf?
- Taw dyna'r un oedd yn cynrychioli'r lle'r ydych yn byw orau?
- Taw dyna'r un mwyaf gwreiddiol?
- Beth arall?
- Pa nodwedd(ion) o'ch hoff gynllun sy'n hyrwyddo Gwerthoedd Gemau'r Gymanwlad?

## Canllaw i athrawon

- **Cynhaliwch arolwg byr o'r cynlluniau gorffenedig. Rhowch sticer smotyn i bob dysgwr a gofynnwch iddyn nhw ei roi ar eu hoff gynllun. Hwn fydd 'medal' y cynllunydd.**
- **Gwnewch yn siŵr nad ydynt yn gwybod pwy gynlluniodd pa faton cyn iddynt bleidleisio.**
- **Gallai eich dosbarth ddefnyddio'r cynllun mwyaf poblogaidd pan fyddant yn cynnal eu digwyddiad eu hunain i ddathlu'r Gymanwlad yn ddiweddarach yn y gyfres yma o sesiynau.**
- **Dangoswch glip fideo V8.**



Montell Douglas

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Pump

# Fy lle i yn y Gymanwlad

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

**Beth sy'n ein cysylltu ni fel dinasyddion y Gymanwlad?**

**Ras Gyfnewid Baton y Frenhines - i ble mae'n teithio?**

**Cysylltu â phobl ifanc mewn rhannau eraill o'r Gymanwlad**

**Beth allwn ni ei wneud gyda'n gilydd i ysgogi newid yn ein cymunedau lleol?**

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

Dangoswch **glip fideo V9** lle mae athletwr yn sôn am wlad ei dreftadaeth a sut mae'n wahanol iawn i'r wlad y mae'n byw ynddi.




Steve Frew

## Canllaw i athrawon

- Yn y sesiwn yma, bydd y dysgwyr yn edrych ar wlad arall sy'n rhan o'r Gymanwlad - ond sy'n wahanol iawn i'w gwlad eu hunain.
- Dewiswch wlad (neu grŵp o wledydd) sy'n wahanol iawn i'r wlad yr ydych yn byw ynddi. Gall fod yn wahanol o ran maint, cyfoeth, lleoliad yn y byd, diwylliant, hinsawdd neu unrhyw elfen arall sy'n ei gwneud yn wahanol i'ch gwlad chi. Gwnewch yn siŵr bod gennych amrywiaeth dda o wledydd ar draws y dosbarth cyfan.

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Adolygu ffeithiau allweddol am wlad arall.
- Cyflwyno'r ffeithiau hynny'n effeithiol.
- Esbonio'r gwahaniaethau rhwng y naill wlad a'r llall.



**Mae'r Gymanwlad hefyd yn annog gwledydd sy'n aelodau i ofalu am hawliau dynol, sy'n golygu fod pobl yn cael eu trin yn deg ac yn mwynhau rhyddid sylfaenol.**

## Canllaw i athrawon

- **Rhowch wlad yr un i bob disgybl a gofyn iddynt ymchwilio iddi (neu rhowch y disgyblion mewn grwpiau bach i ymchwilio grŵp o wledydd gyda'i gilydd).**
- **Mae rhestr o wledydd y Gymanwlad yn rhan o adnodd R2.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

Dylai pob disgybl neu dîm ateb y cwestiynau canlynol am y wlad neu'r gwledydd a roddwyd iddynt:

- Ar ba gyfandir mae'r wlad (gwledydd)?
- Beth yw maint y boblogaeth?
- Beth yw maint y wlad mewn cilomedrau sgwâr?
- Faint o bobl sydd yn y wlad fesul cilomedr sgwâr?
- Beth yw enw'r brifddinas?
- Beth yw safle'r wlad ym Mynegai Ieuenctid y Gymanwlad?

## Canllaw i athrawon

- **Defnyddiwch y ddolen 'Ffeithiau Cyflym am y Gymanwlad' (L7), neu ffynhonell wybodaeth arall i ateb y cwestiynau am y wlad (gwledydd).**
- **Dywedwch wrth y dosbarth y byddant yn clywed mwy am Fynegai Ieuenctid y Gymanwlad mewn ychydig.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Ar un darn mawr o bapur, gofynnwch i bob grŵp nodi'r atebion i'r cwestiynau, ac ychwanegu unrhyw wybodaeth arall y maent wedi'i ffeindio am y wlad a roddwyd iddynt: ei baner, pobl enwog, mathau o fwyd...
- Defnyddiwch y siartiau hyn i greu arddangosfa yn yr ystafell ddosbarth neu neuadd yr ysgol.

**Mae angen ymdrech arbennig i wella addysg i bawb, a chefnogi menywod a phobl ifanc i gychwyn a rhedeg eu busnesau eu hunain. Mae hefyd yn helpu i wella gwasanaethau iechyd.**

## Canllaw i athrawon

**Gallech ddefnyddio'r ffeithiau a'r rhifau fel man cychwyn ar gyfer gweithgareddau mathemateg: trefnu'r gwledydd yn rhestrau yn ôl gwahanol gategorïau, cyflwyno cymedrau ac amrediadau, creu graffiau bar.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Cymhwyso dealltwriaeth

- Gofynnwch i bob disgybl (neu grŵp) ysgrifennu enw eu gwlad (neu eu gwledydd) ar garden bost, ynghyd â safle’r wlad (gwledydd) ar 'Fynegai Ieuenctid y Gymanwlad'.
- Gofynnwch i’r dosbarth greu ‘tabl cynghrair’ o’r holl wledydd y maent wedi bod yn ymchwilio iddynt.
- Beth yw safle eich gwlad yn y tabl?
- Fel dosbarth, trafodwch pam fod y mynegai mor bwysig.

## Canllaw i athrawon

**Esboniwch sut mae Mynegai Ieuenctid y Gymanwlad yn gweithio - ar sail addysg, iechyd, cyflogaeth a faint o ryddid a democratiaeth sydd gan bobl ifanc.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Gofynnwch i'r dosbarth lunio rhestr o resymau pam y dylai'r Gymanwlad ganolbwyntio ar wella sgoriau'r gwledydd sydd isaf ar restr Mynegai Ieuenctid y Gymanwlad.
- Gofynnwch iddynt awgrymu'r mathau o bethau y gallai'r Gymanwlad eu gwneud i helpu i wella'r sefyllfa.

## Canllaw i athrawon

- **Annogwch y dosbarth i feddwl am ieuenctid fel dyfodol y Gymanwlad ac i feddwl am sut y mae buddsoddi mewn addysg, iechyd a chyflogaeth yn fuddsoddiad yn y dyfodol.**
- **Casglwch syniadau'r dosbarth am y pwnc er mwyn eu harddangos.**
- **Dangoswch glip fideo V10.**



Steve Frew

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Chwech

# Cysylltu ar draws y Gymanwlad

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

**Beth sy'n ein cysylltu ni fel dinasyddion y Gymanwlad?**

**Ras Gyfnewid Baton y Frenhines - i ble mae'n teithio?**

**Cysylltu â phobl ifanc mewn rhannau eraill o'r Gymanwlad**

**Beth allwn ni ei wneud gyda'n gilydd i ysgogi newid yn ein cymunedau lleol?**

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

Gwyliwch **glip fideo V11**, lle mae un o'n hathletwyr sy'n fentor yn sôn am y cysylltiadau y mae wedi eu gwneud gyda phobl o wahanol ddiwylliannau a'r hyn a ddysgodd drwy ei brofiadau.




Steve Frew

## Canllaw i athrawon

- Amcan y sesiwn yma yw eich helpu i feithrin cyswllt gydag ysgol arall, yn ddelfrydol mewn un o wledydd eraill y Gymanwlad.
- Efallai bod gennych gysylltiad personol ag athro/athrawes o ysgol arall dramor, neu efallai bod eich ysgol eisoes yn cymryd rhan yn un o raglenni'r British Council neu'r Gymanwlad i gysylltu ysgolion neu gymunedau.
- Efallai bod gennych gysylltiad drwy gydweithiwr neu hyd oed ddysgwr sydd wedi symud o ran arall o'r byd i'ch ysgol, neu o'ch ysgol i ysgol newydd mewn rhan arall o'r byd.
- Gwnewch bopeth a allwch i feithrin cysylltiad gydag ysgol newydd - i roi cyfle i'ch dysgwyr ffurfio perthnasoedd newydd a dysgu am ddiwylliannau newydd.

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Adolygu ffeithiau allweddol am wlad arall.
- Cyflwyno'r ffeithiau hynny'n effeithiol.
- Esbonio'r gwahaniaethau rhwng y naill wlad a'r llall.

**Rydym yn dathlu Diwrnod y Gymanwlad ar yr ail ddydd Llun ym mis Mawrth bob blwyddyn.**

## Canllaw i athrawon

**Esboniwch fod y dosbarth yn mynd i gysylltu gyda dysgwyr mewn ysgol arall mewn rhan arall o'r Gymanwlad.**

**Esboniwch sut yr ydych (fel dosbarth) yn mynd i wneud i hyn ddigwydd. Efallai:**

- **trwy gyfnewid e-byst**
- **trwy gyfnewid negeseuon fideo**
- **trwy linc fideo byw**
- **cyfuniad o'r uchod**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- I ddechrau, dylai'r dosbarth wneud ychydig o ymchwil am y wlad lle mae'r ysgol bartner newydd.
- Gallant gyfeirio'n ôl at **sesiwn 1** a sesiwn 5 lle bu'r dosbarth yn ymchwilio a chasglu gwybodaeth am rai o wledydd y Gymanwlad.
- Dylai bod rhai ffeithiau sylfaenol ganddynt wrth law am y wlad bartner – er mwyn gallu cynnal sgwrs am y wlad honno.

**Mae thema'r sesiwn yma'n archwilio sut y gallwn warchod ein hamgylchedd naturiol a'r cefnforoedd, a gweithio gyda'n gilydd ar faterion yn ymwneud â masnach er budd pawb, yn enwedig menywod, pobl ifanc a grwpiau sydd wedi cael eu gwthio i'r cyrion.**

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch ym mha ran o'r byd y mae'r ysgol arall. Dangoswch ei lleoliad ar fap o'r byd. Mae map o'r byd ar gael fel rhan o adnodd R2.**
- **Gofynnwch i'r dosbarth beth maent yn ei wybod yn barod am y wlad lle lleolir yr ysgol bartner.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

Dylai'r dosbarth allu ateb rhai cwestiynau sylfaenol am y wlad bartner:

- Ar fap o'r byd – ble mae'r wlad bartner?
- Ar ba gyfandir mae'r wlad bartner?
- Beth yw'r prif ieithoedd a siaredir yno?
- Beth yw enw'r brifddinas?
- Beth yw prif grefyddau'r wlad?
- Ydyn nhw'n gallu enwi tri pherson enwog o'r wlad bartner sy'n fyw heddiw?
- Ydy'r dysgwyr yn gallu ateb yr un cwestiynau am eu gwlad eu hunain?

## Canllaw i athrawon

- **Gofalwch fod gan bawb yn y dosbarth rywfaint o wybodaeth sylfaenol am y wlad newydd.**
- **Gwnewch yn siŵr fod ganddynt yr un wybodaeth am eu gwlad eu hunain.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Beth hoffech chi ei ddysgu am eich gwlad bartner newydd, eich ysgol bartner newydd a'r dysgwyr sy'n ei mynychu?
- Dylai pawb lunio rhestr o dri chwestiwn – un am y wlad, un am yr ysgol ac un ar gyfer unigolion yn yr ysol bartner.
- Gallwch gynnwys y cwestiynau fel rhan o neges e-bost i'ch dosbarth partner newydd.

**#CommonwealthConnections**

## Canllaw i athrawon

**Rhowch enghreifftiau o gwestiynau da:**

- **Cwestiynau sy'n gofyn am fwy nag ateb 'ie/na'; 'ydw/nac ydw'**
- **Rhywbeth diddorol**
- **Cwestiwn sy'n cymell ateb sy'n dysgu rhywbeth newydd i chi**
- **Rhywbeth sy'n gwneud i chi eisiau gofyn rhagor o gwestiynau i ddarganfod mwy.**


**Danfonwch y cwestiynau i'r ysgol bartner ymlaen llaw fel bod amser gan yr athrawes/athro a'r dysgwyr yno i baratoi eu hatebion. Yn ddelfrydol, bydd y dysgwyr yn gallu danfon neges fideo yn ôl cyn i'r ddau ddosbarth gael sgwrs fideo 'byw'.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Beth oedd y peth mwyaf diddorol neu anisgwyl a ddysgoch chi am eich gwlad neu ysgol bartner?
- Beth arall hoffech chi ei wybod?



**Mae Diwrnod y Gymanwlad yn gyfle i'n teulu o 2.4 biliwn ddathlu amrywiaeth, cryfhau ein cyfeillgarwch â'n gilydd a chydnabod yr hyn a gyflawnwyd gan y Gymanwlad.**

## Canllaw i athrawon

- **Cynhaliwch sgwrs adolygu fer ar ôl eich sesiwn gyntaf o gyfnewid ymatebion.**
- **Dangoswch glip fideo V12.**



Steve Frew

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Saith

# Ysgogi fy nghymuned

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae’r pynciau yma’n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae’r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

## Ysgogi fy nghymuned

Datblygu fy nealltwriaeth o bobl a llefydd eraill yn y Gymanwlad a’r materion y maent yn eu hwynebu sy’n berthnasol i bawb ohonom.

## Straeon i'n hysbrydoli gan athletwyr y Gymanwlad

Cawn glywed gan athletwr elît sy’n teimlo’n angerddol am gynhwysiant a sicrhau fod pawb yn cael cyfle i lwyddo mewn chwaraeon ac yn eu bywydau.

## Gweithio gyda'n gilydd i oresgyn heriau

Cysylltwch gydag ysgolion a dysgwyr eraill o bob rhan o’r Gymanwlad i ddatrys heriau cyffredin gyda’n gilydd.



# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

- Gwyliwch **glip fideo V13** lle mae athletwr sy'n fentor yn annog y dysgwyr i feddwl am rai o'r heriau sy'n wynebu pobl ifanc yn eu cymuned eu hunain a chymunedau ledled y Gymanwlad.




Liz Johnson

- Esboniwch fod y ddau grŵp yn mynd i nodi her gyffredin a meddwl am syniadau i helpu datrys hynny gyda'i gilydd.

## Canllaw i athrawon

- **Yn ystod y sesiwn yma, byddwch yn cael eich annog i weithio gyda dosbarth arall yn eich ysgol, neu gyda dysgwyr o ysgol arall yn yr un wlad â chi neu yn rhywle arall yn y byd os oes gyda chi gysylltiad y gallwch fanteisio arno.**
- **Gyda lwc, fe fyddwch wedi dechrau'r cysylltiad yma yn sesiwn 6.**
- **Bydd y sesiwn yma'n canolbwyntio ar ffeindio ateb ar y cyd i her sy'n gyffredin i'r ddau grŵp.**

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- **Meddwl am** syniadau gwahanol am bethau y gallwn eu gwneud.
- **Categoreiddio'r** syniadau hyn a'u gosod mewn grwpiau.
- **Dewis** syniad i'w ddatblygu.

**Mae rhaglen y Gymanwlad, 'Chwaraeon ar gyfer Datblygu a Heddwch', yn dangos i wledydd sut y gellir defnyddio chwaraeon i hybu byw bywyd iachach a dysgu pobl ifanc am oddefgarwch.**

## Canllaw i athrawon

- **Mae'r sesiwn yma'n cyflwyno syniadau am wneud penderfyniadau, trafod, a democratiaeth.**
- **Bydd yn rhoi cyfle i'r dysgwyr feddwl am syniadau am weithgaredd cymunedol sy'n mynd i'r afael â her sy'n gyffredin i ddau grŵp gwahanol o bobl.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- Dechreuwch yn eich dosbarthiadau eich hunan drwy roi nodyn post-it neu ddarn bach o bapur i bawb, a gofyn iddynt ysgrifennu her sy'n wynebu pobl ifanc yn eu hysgol.
- Gofynnwch i bob dysgwr lynnu ei her ar ddarn o bapur mawr neu ar wal.
- Tynnwch ffotograff o'r wal (neu'r papur mawr) ac yna rhannwch y ffotograff gyda'r dosbarthiadau eraill.

## Canllaw i athrawon

**Gall fod llawer o syniadau gan eich dysgwyr yn barod am yr heriau sy'n wynebu pobl ifanc.**

**Os ydynt yn cael trafferth, gallwch eu sbarduno drwy grybwyll:**

- **y ffordd y mae pobl sy'n wahanol i'r mwyafrif yn cael eu trin**
- **rolau merched a menywod ifanc**
- **effeithiau newid yn yr hinsawdd**
- **problemau amgylcheddol – sbwriel, gwastraff**
- **mynediad i addysg**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Rydych yn mynd i grwpio'r heriau i 4-6 gategoriau. Gallwch chi eu hawgrymu, neu gallwch ofyn i'r dosbarth eu hawgrymu.
- Dewiswch ddau neu dri o'r dysgwyr i weithredu ar ran y dosbarth drwy symud y darnau papur, ond sicrhewch fod pawb yn y dosbarth yn cyfrannu i'r drafodaeth.
- Erbyn diwedd y gweithgaredd, dylai fod yr holl broblemau wedi cael eu grwpio i'r categoriau hyn.
- Gosodwch syniadau sy'n codi fwy nag unwaith ar ben ei gilydd.

## Canllaw i athrawon

**Efallai y bydd angen cyfres o gategorïau'n barod wrth law arnoch, fel:**

- **ein hinsawdd**
- **sut yr ydym yn trin gwahanol grwpiau**
- **mynediad i addysg**
- **gwastraff a sbwriel**
- **trosedd**
- **tlodi**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Tynnwch ffotograff o'ch siart newydd a'i rannu gyda'ch ysgol bartner os oes gennych un.
- Nodwch yr heriau sy'n gyffredin a gosodwch y rheini ar ddarn newydd o bapur. Dylai fod yr un atebion gan y ddau ddosbarth.
- Cynhaliwch 'bleidlais gudd' i benderfynnu ar ba un o'r heriau yr ydych yn mynd i ganolbwyntio.
- Oes yna unrhyw heriau cyffredin rhwng y ddau ddosbarth?

## Canllaw i athrawon

**Wedi'r sesiwn gyntaf yma, penderfyniad yr ysgolion yw pa mor bell i fynd â'r gweithgaredd.**

**Os dymunwch, gallech ddefnyddio un o adnoddau addysg y British Council sy'n canolbwyntio ar Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig:**

- **Stori dŵr, dolen L8**
- **Lleihau gwastraff, dolen L9**
- **Menter gymdeithasol, dolen L10**
- **Byw gyda'n gilydd yn heddychlon, dolen L11**
- **Gwella cymunedau, dolen L12**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Dangoswch **glip fideo V14** sy'n trafod pwysigrwydd bod yn ddinesydd mewn democratiaeth – yr hawliau y mae hynny'n eu rhoi i chi yn ogystal â'r cyfrifoldebau.
- Gallwch gynnal trafodaeth am bŵer a phwysigrwydd pleidlais gudd a sut mae'n rhoi llais i bawb heb iddynt ofni bod eraill yn rhoi pwysau arnynt neu bod eraill yn eu barnu.
- Gallwch gael trafodaeth hefyd am sut y mae pobl yn teimlo os na chafodd eu syniad nhw ei ddewis. Ydyn nhw'n hapus gyda'r penderfyniad a wnaed?
- Sut fyddan nhw'n gwneud yn siwr eu bod yn cyfrannu, hyd yn oed i syniad rhywun arall?

## Canllaw i athrawon

- **Defnyddiwch y sesiwn adolygu i edrych ar y syniad o roi llais i bobl ifanc a phwysigrwydd rhoi cyfle i bawb leisio'u barn.**
- **Gallech gael sgwrs am bŵer a phwysigrwydd pleidlais gudd a sut y mae'n rhoi llais i bawb heb iddynt ofni bod eraill yn rhoi pwysau arnynt neu fod eraill yn eu barnu.**
- **Dydy hynny ddim yn golygu fod pawb yn cael eu ffordd bob tro – dyna yw natur democratiaeth. Rydym yn cytuno i anghytuno mewn modd heddychlon.**
- **Dylem wrando hefyd ar syniadau'r lleiafrif a chydnabod y syniadau hynny, a pheidio eu hanwybyddu am nad ydynt ymysg y syniadau mwyaf poblogaidd.**
- **Dangoswch glip fideo V14.**



Liz Johnson

## Nodiadau


## Gweithgaredd Dysgu Wyth

# Cloddio ychydig yn ddyfnach

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

## Ysgogi fy nghymuned

Datblygu fy nealltwriaeth o bobl a llefydd eraill yn y Gymanwlad a'r materion y maent yn eu hwynebu sy'n berthnasol i bawb ohonom.

## Straeon i'n hysbrydoli gan athletwyr y Gymanwlad

Cawn glywed gan athletwr elît sy'n teimlo'n angerddol am gynhwysiant a sicrhau fod pawb yn cael cyfle i lwyddo mewn chwaraeon ac yn eu bywydau.

## Gweithio gyda'n gilydd i oresgyn heriau

Cysylltwch gydag ysgolion a dysgwyr eraill o bob rhan o'r Gymanwlad i ddatrys heriau cyffredin gyda'n gilydd.

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

Dangoswch **glip fideo L15** sy'n cyflwyno sesiwn heddiw. Ynddo mae athletwr yn sôn am brofiad sydd wedi ffurfio ei chymeriad – profiad y mae'n teimlo'n gryf iawn amdano.




Liz Johnson

Fel dosbarth, rydych yn mynd i gael pwnc neu gyfres o bynciau y bydd yn rhaid i chi eu harchwilio'n fanylach; yna rydych yn mynd i greu darn o waith sy'n dangos yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu am y pwnc.

## Canllaw i athrawon

**Rydym wedi llunio'r sesiwn yma fel y gallwch chi, fel yr un sy'n adnabod y dosbarth orau, ddewis pwnc i'w archwilio'n fwy manwl.**

**Nod y sesiwn yn y pendraw yw creu cyfres o ddarnau o waith y gall eich dysgwyr eu defnyddio i greu oriel, llyfr neu wefan sy'n dangos yr hyn y maent wedi'i ddysgu am fod yn ddinasyddion y Gymanwlad.**

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- **Ymchwilio** pwnc perthnasol yn drylwyr.
- **Dangos** y wybodaeth a'r ddealltwriaeth newydd yr ydych wedi eu meithrin.
- **Creu** darn o waith sy'n dathlu'r hyn yr ydych wedi'i ddysgu.

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch eich bod yn mynd i roi pwnc i'r dosbarth ei ymchwilio. Fel athrawes/athro, byddwch yn gallu dewis pwnc sy'n briodol a pherthnasol ar gyfer eich dosbarth.**
- **Byddem yn eich annog i ddewis pwnc sy'n addas ond sy'n herio rhywfaint ar ddealltwriaeth, agweddau a chredoau'r dysgwyr.**
- **Mae'n bosib y bydd hwn yn bwnc mwy heriol yn ddeallusol – pwnc sy'n cyflwyno deunydd ychydig yn sensitif o bosib neu sy'n cymell y dysgwyr i feddwl mewn ffordd wahanol.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

Rydych chi'n mynd i gael pwnc i'w ymchwilio, ond does dim digon o amser gyda chi i ddysgu popeth sydd i'w wybod am y pwnc. I gyfeirio eich ymchwil, meddyliwch am 3 neu 4 o gwestiynau am y pwnc yr hoffech ffeindio atebion iddynt.

- Ysgrifennwch y cwestiynau ac yna rhannwch nhw gyda phartner.
- Beth sy'n gwneud cwestiwn da?
- Cwestiwn sy'n galw am fwy nag 'ie' neu 'na' fel ateb.
- Cwestiwn sy'n cydio yn eich dychymyg.
- Cwestiwn sy'n dysgu rhywbeth newydd i chi am y pwnc.
- Cwestiwn sy'n eich herio i feddwl mewn ffordd wahanol am y pwnc.
- Gwiriwch eich cwestiynau gyda'ch athrawes/athro, ac yna dechreuwch ar eich ymchwil.

## Canllaw i athrawon

**Dyma restr o bynciau posib y gallech ddewis o'u plith:**

- **Daearyddiaeth neu hanes un o wledydd y Gymanwlad sy'n anghyfarwydd i chi. Nid yw hwn yn bwnc dadleuol, ond gall alw am ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth newydd drwy ymchwilio. Gallech ddechrau gyda'r ddolen yma i Ieuenctid y Gymanwlad (L13).**
- **Stori'r Windrush – pwnc sy'n berthnasol iawn heddiw ac sy'n cysylltu â materion eraill yn ymwneud â'r gwahaniaethu a'r anghydraddoldeb a wynebir gan bobl ledled y byd. Mae deunyddiau o'r BBC ar gael drwy ddolen L14 a Sefydliad Gerladine Connor drwy ddolen L15.**
- **Addysg merched – pwnc hanfodol bwysig ar draws y Gymanwlad, yn enwedig yn sgil effaith pandemig Covid-19, sydd wedi effeithio'n anghymesur ar ferched a menywod ifanc. Mae adnoddau ar gael o Theirworld drwy ddolen L16 a Chronfa Malala drwy ddolen L17.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Dydych chi ddim yn mynd i adrodd rhestr o ffeithiau moel yn eich adroddiad. Yn hytrach, rydych yn mynd i wneud rhywbeth creadigol gyda'ch dealltwriaeth newydd.
- Efallai y bydd yn ddarn o ysgrifennu creadigol, cerdd neu sgript ar gyfer drama fer. Efallai y bydd yn ddawns neu'n gân. Efallai y bydd yn baentiad, nofel graffig fer neu'n ddarn o gerflunwaith.
- Gall yr hyn yr ydych yn ei greu fod yn ffordd o rannu ffeithiau, teimladau, syniadau, stori.

**Mae Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad yn annog aelodau i ddod at ei gilydd i drafod eu pryderon a'u syniadau.**

## Canllaw i athrawon

- **Unwaith y bydd eich dysgwyr wedi dewis eu cwestiynau ymchwil, gallwch gyflwyno gymaint neu gyn lleied o wybodaeth ag y teimlwch sydd ei angen arnynt i ymdopi'n llwyddiannus.**
- **Gosodwch amser penodol ar gyfer y gwaith, ond caniatewch iddynt ymchwilio y tu allan i amser y wers os ydynt yn dymuno.**

## Nodiadau

# 5- Cymhathu dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Dylai pob dysgwr ffeindio ffordd o rannu'r hyn y maent wedi'i gyflawni gyda phobl eraill.
- Annogwch y dysgwyr i gadw llyfr nodiadau wth wneud eu hymchwil – neu i dynnu cyfres o ffotograffau neu greu clipiau fideo.
- Ceisiwch gyfleu siwrne'r darganfod a phroses y creu yn ogystal â'r gwaith gorffenedig.

**#CommonwealthConnections**



**Mae tua 60% o drigolion y Gymanwlad yn iau na 30 oed. Mae Cyngor Ieuenctid y Gymanwlad yn helpu pobl ifanc i weithio gyda'i gilydd a rhannu eu syniadau gyda'r rheini sy'n gwneud penderfyniadau.**

## Canllaw i athrawon

- **Penderfynwch pa fformat sydd orau i rannu'r hyn y mae'r dysgwyr wedi'i greu. Gall fod yn arddangosfa wedi'i churadu, oriel, llyfr neu'n wefan hyd yn oed.**
- **Ystyriwch sut y gallwch rannu'r gwaith y tu hwnt i'r dosbarth – gyda dosbarthiadau eraill, cymuned ehangach yr ysgol, ac ysgolion eraill y mae gennych berthynas â nhw.**
- **Efallai y gallech gyflwyno arddangosfa ar y cyd gyda dosbarthiadau neu ysgolion eraill – yn eich gwlad eich hun neu dramor – i rannu'r hyn y mae eich dysgwyr wedi'i ddysgu am y Gymanwlad a'u lle nhw ynddo.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

Rhowch ddwy frawddeg gychwynol i’r dysgwyr:

- “Fe ffeindiais fy mod yn gallu....”
- ac “Fe sylweddolais fy mod i’n dda am.."
- Gofynnwch i’r dysgwyr ysgrifennu eu brawddegau ar gardiau post i’w dangos fel rhan o’ch arddangosfa.

## Canllaw i athrawon

**Wrth i’r arddangosfa ddatblygu, ffeindiwch rywbeth ym mhroses neu waith gorffenedig pob dysgwr i’w ddathlu.**

**Defnyddiwch werthoedd Gemau’r Gymanwlad:**

- **Dyngarwch (darn o waith sy’n dangos cydymdeimlad neu ddealltwriaeth y dysgwr o bobl sy’n wahanol iddynt).**
- **Tynged (darn o waith sy’n amlwg wedi herio’r dysgwr i ddysgu sgiliau newydd neu roi cynnig ar ffordd newydd o weithio).**
- **Cydraddoldeb (darn o waith sy’n dathlu gwahanol ddiwylliannau a gwareiddiadau).**
- **Dangoswch glip fideo V16.**



Liz Johnson

## Nodiadau

## Gweithgaredd Dysgu Naw

# Gŵyl o chwaraeon a diwylliant y Gymanwlad

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

### Rhannu'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu

am bobl a diwylliannau eraill

### Dathlu'r effaith y gallwn ei gael

fel ymgyrchwyr, llysgenhadon, hyfforddwyr neu fentoriaid

### Digwyddiad rhithwir ledled y Gymanwlad

ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen yma. Seremoni agoriadol sy'n dathlu gwahanol draddodiadau a diwylliannau, gŵyl o chwaraeon y Gymanwlad, cyfnewidfa syniadau, seremoni gloi

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

- Dangoswch **fideo V17** lle mae enillydd medal yng Ngemau'r Gymanwlad yn cyflwyno ei champ - bowliau.




Ellen Falkner

- Mae'n gamp lle mae ffocws, gwneud penderfyniadau a strategaeth yn hollbwysig - camp y gall unrhyw un ei mwynhau.

## Canllaw i athrawon

- Mae'r sesiwn yma'n canolbwyntio ar ddatblygu sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd drwy ddysgu am rhai o'r campau a welir yng Ngemau'r Gymanwlad a rhoi cynnig arnynt hefyd.
- Mae bowliau wedi hen sefydlu ei hun fel un o gampau Gemau'r Gymanwlad. Gêm hawdd i'w dysgu, anodd ei meistroli, a gêm y gall pawb ei chwarae.
- Mae yna ffurfiau o'r gamp – gemau targed fel boccia – sydd wedi'u haddasu ar gyfer pobl sydd angen cymorth ychwanegol. Does dim angen llawer o gyfarpar na lle i chwarae gwahanol ffurfiau'r gêm.

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Dangos sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd drwy ddysgu gweithgaredd anghyfarwydd.
- Creu fersiwn wedi'i haddasu o'r gweithgaredd, gan roi ystyriaeth i set o gyfyngiadau penodol.
- Trefnu twrnament bach ar gyfer chwaraewyr eraill.

**Bydd Gemau'r Gymanwlad Birmingham 2022 yn cael eu cynnal mewn gwahanol ganolfannau yn Birmingham yn Lloegr o 28 Gorffennaf tan 8 Awst 2022.**

## Canllaw i athrawon

**Esboniwch mai nod y sesiwn yma yw dysgu gweithgaredd newydd, gan ei addasu ar gyfer cyfyngiadau sydd arnoch o ran amser, lle a chyfarpar; ac yna gweithio gyda'ch cyd-ddysgwyr i drefnu twrnament bach i gyflwyno'r gamp newydd yma i gynulleidfa newydd.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- Mae'r dysgwyr yn mynd i ddysgu tri o weithgareddau syml – fel ffordd o gyflwyno bowliau iddynt.
- Trefnwch a chwaraewch y gêm sydd ar eich carden am tua deg munud. Wedi gwneud hynny, gadewch ddau ddisgybl ar ôl i ddysgu'r gêm i dîm newydd, tra bod pawb arall yn symud ymlaen i ddysgu gêm newydd arall.
- Unwaith y byddwch wedi chwarae'r gêm nesaf, rhaid i ddau ddisgybl gwahanol aros ar ôl i ddysgu'r ail gêm newydd yma i drydydd tîm.
- Erbyn diwedd y trydydd cylchdro, bydd mwyafrif y dysgwyr wedi cael profiad o chwarae dwy neu dair gêm newydd (30 munud).

## Canllaw i athrawon

- **Rhannwch y dosbarth i chwech o dimoedd. Defnyddiwch ddolen L18 i lawrlwytho cardiau gweithgaredd sy'n dangos tri fersiwn gwahanol o fowliau – bowlio ceilys, bowlio llinell a rholiobowlio. Bydd angen dau gopi o bob carden. Gallwch eu printio o adnodd R9.**
- **Bydd angen rhoi un garden yr un i bob tîm fel y gallant ddysgu rheolau'r gweithgaredd a ddangosir.**
- **Pan fydd y timau'n gyfarwydd â'u gêm, rhaid iddynt ddewis dau berson i ddysgu'r gêm i un o'r timoedd eraill.**
- **Bydd tri thîm yn cylchdroi o gwmpas un man, tra bod y tri thîm arall yn cylchdroi o gwmpas man gwahanol. Dylai pawb chwarae tair gêm.**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- A oedd yn rhaid i'r timoedd wneud unrhyw newidiadau i'w gêm gan nad oedd ganddynt y cyfarpar cywir?
- A oedd yn rhaid iddyn nhw wneud unrhyw newidiadau gan nad oedd rhai pobl yn gallu chwarae'r gêm yn ei ffurf wreiddiol?
- Dyfeisiwch reol newydd sy'n gwneud y gêm yn fwy egnïol.
- Dyfeisiwch reol newydd sy'n gwneud y gêm yn fwy anodd.

**I lawer, mae'r gystadleuaeth Bowliau Lawnt yng Ngemau'r Gymanwlad yn un o ddigwyddiadau mwyaf pwysig y gamp, ac felly bydd llygaid pawb ar y gystadleuaeth yma wrth i'r bowliau ddechrau rholio yn Birmingham 2022.**

## Canllaw i athrawon

- **Cynhaliwch adolygiad byr o'r sesiwn hyd yma.**
- **Oedd yna unrhyw un nad oedd yn gallu cymryd rhan yn y gêm o gwbl, oherwydd anabledd efallai?**
- **Mae Boccia yn fath arall o gêm darged. Cafodd ei chreu i bobl ag anabledd a phobl heb anabledd i chwarae gyda'i gilydd. Mae'r rheolau a gweithgareddau cysylltiedig ar gael drwy ddolen L19. Mae cardiau gweithgareddau ar waelod y dudalen. Gallwch brintio pecyn ohonynt yn R10.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

- Rydych yn mynd i gynnal twrnament bowliau ar gyfer dosbarth arall yn eich ysgol.
- Mae pob un ohonoch yn mynd i gael swydd i'w gwneud yn ystod y twrnament.
- Cofiwch wneud yn siŵr fod pawb yn gallu cymryd rhan yn y gêm. Os oes unrhyw un yn methu, eich gwaith chi yw ffeindio ffordd i'w helpu i ymuno â'r gêm.
- Gallwch gyflwyno eich fersiwn newydd mwy egnïol o'r gêm hefyd, neu eich fersiwn 'anodd iawn' o'r gêm os yw'r fersiwn yma'n rhy hawdd i bobl.

## Canllaw i athrawon

- **Trefnwch i'ch dosbarth bartneru gyda dosbarth arall yn yr ysgol – yn ddelfrydol, dosbarth â dysgwyr o'r un oed neu'n iau.**
- **Mae eich dosbarth yn mynd i gynnal twrnament bowliau ar gyfer y dosbarth newydd.**
- **Yn ogystal â bod yn helpwyr a dyfarnwyr ar gyfer y tri gweithgaredd maent wedi eu dysgu'n barod, bydd yn rhaid i'r dysgwyr gymryd rolau ceidwaid amser, sgorwyr ac arweinwyr tîm i sicrhau fod popeth yn gweithio'n esmwyth yn ystod y twrnament.**
- **Rhowch swydd i bob dysgwr ei gwneud yn ystod y twrnament.**

## Nodiadau

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Beth wnaethoch chi i helpu pobl eraill i lwyddo a chymryd rhan yn y sesiwn heddiw?
- A gawsoch chi unrhyw syniadau da i wneud y gemau'n haws, yn fwy egnïol neu'n fwy heriol?
- A ddysgoch chi unrhyw beth amdanoch eich hun fel arweinydd ifanc?

**Mae Bowliau Lawnt yn un o gampau craidd rhaglen Gemau'r Gymanwlad – sy'n golygu ei bod wedi bod yn rhan o bob un o'r Gemau ers 1930.**

## Canllaw i athrawon

**Cynhaliwch adolygiad gyda'r dosbarth cyfan ar ôl y twrnament.**

- **Beth aeth yn dda?**
- **Beth y gallem ni ei wneud hyd yn oed yn well y tro nesaf?**

**Dangoswch glip fideo V18 sy'n esbonio eich bod, yn fuan iawn, yn mynd i ddefnyddio'r pethau a ddysgoch heddiw am gyflwyno gweithgaredd, ei addasu ar gyfer gwahanol bobl, a sut i drefnu cystadleuaeth, achos yn y sesiwn nesaf rydych yn mynd i gynnal eich gŵyl eich hunan o chwaraeon y Gymanwlad.**

- **Dangoswch glip fideo V18.**



Ellen Falkner

## Nodiadau


## Gweithgaredd Dysgu Deg

# Dathlu chwaraeon a diwylliant y Gymanwlad

### Strwythur

Mae pob pwnc yn cynnwys dau weithgaredd dysgu sy'n ddigon hyblyg i alluogi athrawon i benderfynnu pa mor fanwl y maent am edrych ar bob pwnc. Gyda'i gilydd, dylai'r pum pwnc a gyflwynir yma gymryd o leiaf ddeg awr o amser addysgu a dysgu.

1. **Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol**
2. **Canlyniadau Dysgu**
3. **Rhannu gwybodaeth newydd**
4. **Adeiladu dysgu**
5. **Cymhwyso dealltwriaeth**
6. **Adolygu**



# Trosolwg

Mae'r pynciau yma'n rhoi cyfle i athrawon gyflwyno gwybodaeth a syniadau newydd a heriol, ond mae'r cynnwys yn hyblyg hefyd a gellir ei addasu ar gyfer anghenion y dysgwyr a chyd-destun diwylliannol eu profiad dysgu.

### Rhannu'r hyn yr ydym wedi ei ddysgu

am bobl a diwylliannau eraill

### Dathlu'r effaith y gallwn ei gael

fel ymgyrchwyr, llysgenhadon, hyfforddwyr neu fentoriaid

### Digwyddiad rhithwir ledled y Gymanwlad

ar gyfer pobl ifanc sydd wedi cymryd rhan yn y rhaglen yma. Seremoni agoriadol sy'n dathlu gwahanol draddodiadau a diwylliannau, gŵyl o chwaraeon y Gymanwlad, cyfnewidfa syniadau, seremoni gloi

# 1- Y darlun mawr a chysylltiadau â dysgu blaenorol

## Gweithgareddau dysgu

- Gwyliwch **fideo V19** sy'n cyflwyno'r syniad o gynnal gŵyl o ddathlu tebyg i Gemau'r Gymanwlad.




Ellen Falkner

- Bydd eich digwyddiad yn dechrau gyda seremoni agoriadol, a fydd yn dod â chyfranogwyr o wahanol ddosbarthiadau, ysgolion neu wledydd hyd yn oed, at ei gilydd.
- Bydd yn cynnwys gŵyl o chwaraeon a gweithgareddau corfforol.
- Bydd yn cynnwys enghreifftiau o'r hyn yr ydych wedi ei ddysgu am y Gymanwlad a'i dinasyddion.
- Byddwch yn cynnal seremoni gloi a fydd yn annog pawb i barhau i fod yn gyfranwyr gweithredol, yn ddysgwyr gweithredol ac yn ddinasyddion gweithredol.

## Canllaw i athrawon

- **Y sesiwn yma yw sesiwn olaf yr adnodd. Bydd yn crynhoi popeth yr ydych chi a'ch dysgwyr wedi ei ddysgu ar ffurf dathliad arbennig o Gemau'r Gymanwlad.**
- **Efallai y bydd yn gyfle i ddod â dysgwyr o bob rhan o'ch ysgol at ei gilydd. Efallai y bydd yn gyfle i gysylltu eich ysgol gydag ysgol arall yn eich ardal neu'ch gwlad. Gall hyd yn oed fod yn gyfle i gysylltu gydag ysgolion a dysgwyr o ran arall o'r Gymanwlad.**
- **Dylai'r dathliad yma adlewyrchu a chydnabod y wybodaeth a'r ddealltwriaeth y mae eich dysgwyr wedi ei feithrin, a dangos y sgiliau newydd y maent wedi eu datblygu fel arweinwyr a phobl sy'n ysgogi newid yn eu hysgol a'u cymuned.**

## Nodiadau

# 2- Canlyniadau dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- **Trefnu** gŵyl / dathliad.
- **Edrych** ar y sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth newydd yr ydych wedi eu datblygu yn ystod y prosiect yma.
- **Ystyried** a ydych wedi newid unrhyw rai o'ch agweddau neu gredoau wrth gymryd rhan yn y prosiect yma.

**Bydd cystadleuaeth y beiciau mynydd yn Birmingham 2022 yn dipyn o sioe. Bydd yr athletwyr yn plymio i lawr llethrau serth, glanio'n esmwyth a chwim cyn gwthio'n galed i fyny'r dringfeydd. Mae'r nod yn syml – croesi'r llinell derfyn yn gyntaf i ennill yr Aur.**

## Canllaw i athrawon

- **Esboniwch y bydd y dosbarth yn arwain y gwaith o gynllunio a chynnal yr ŵyl arbennig yma o chwaraeon y Gymanwlad, ac wrth wneud hynny, byddan nhw hefyd yn datblygu eu sgiliau newydd eu hunain.**
- **A gobeithio hefyd y bydd hyn yn golygu cydweithio gyda dosbarthiadau eraill yn yr ysgol a dysgwyr eraill o ysgolion eraill.**

## Nodiadau

# 3- Rhannu gwybodaeth newydd

## Gweithgareddau dysgu

- Rhannwch eich dosbarth i bedwar o dimoedd – cynllunwyr y seremoni agoriadol, cynllunwyr y gweithgareddau, cynllunwyr diwylliannol a chynllunwyr y seremoni gloi.
- Gall hon fod yn broses ddewisol ymysg y dysgwyr, neu gallwch ddewis y grwpiau ar hap, neu gallwch ddewis y grwpiau fel eu bod yn cynnwys cymysgedd o sgiliau, diddordebau a gallu.
- Mae pob tîm yn cymryd cyfrifoldeb am un elfen o gynllunio'r digwyddiad dathlu. Pennwch gyfnod/amser penodol yn ystod y digwyddiad ar gyfer pob un o'r pedair elfen, a dywedwch wrth eich timoedd eu bod yn mynd i gynllunio eu gweithgareddau gyda chymorth adnoddau **R11**, **R12**, **R13**, **R14**.

## Canllaw i athrawon

- **Gall y dathliad fod mor gymleth neu syml ag y dymunwch. Gall fod yn ddigwyddiad byr, awr o hyd gydag un dosbarth, neu gall fod yn ddigwyddiad mwy cymleth lle bydd dysgwyr o wahanol ddosbarthiadau'n cydweithio i redeg y gweithgareddau.**
- **Gallech hyd yn oed gynnal 'digwyddiad rhithwir' gydag un neu fwy o ysgolion y mae gyda chi gysylltiad â nhw - lle'r ydych yn rhannu'r seremoni agoriadol a'r seremoni gloi drwy linc fideo.**
- **Gallech hyd yn oed gynnal cystadleuaeth chwaraeon rhithwir os dewiswch gampau neu weithgareddau y gellir eu mesur yn hawdd fel rhedeg, neidio, taflu, nofio neu gemau targed.**

**#CommonwealthConnections**

## Nodiadau

# 4- Adeiladu dysgu

## Gweithgareddau dysgu

- Rhowch 30 munud i'r timoedd baratoi eu cynlluniau cyntaf. Erbyn diwedd yr amser, dylent fod yn barod i esbonio eu syniadau a sut y bydd eu helfen nhw o'r dathliad yn edrych/gweithio.
- Dylai bob tîm apwyntio un neu ddau o bobl i esbonio hyn wrth weddill y dosbarth.
- Wedi clywed y syniadau, rhowch adborth a gwnewch awgrymiadau, gan dreulio ychydig funudau gyda phob tîm i egluro'r camau nesaf.

## Canllaw i athrawon

- **Eich rôl chi yw cynnig cefnogaeth i bob grŵp i ddatblygu eu gwaith meddwl a chynllunio drwy ofyn cwestiynau a sicrhau fod pethau'n glir wrth i'w cynlluniau ddatblygu.**
- **Mae'r taflenni cynllunio'n cynnig fframwaith clir iddynt ei dilyn yn ogystal ag awgrymu rhai camau y gellir eu cymryd i sicrhau llwyddiant.**
- **Yn amlwg, bydd yr help sydd ei angen ar eich dysgwyr yn dibynnu ar eu hoed a'u gallu, felly efallai y dewiswch osod tasgau tipyn cliriach i grwpiau llai wedi i'r dysgwyr gael cyfle i rannu eu syniadau cyntaf.**

## Nodiadau

# 5- Cymhwyso dealltwriaeth

## Gweithgareddau dysgu

### Rhan 1

- Dylai'r timoedd dreulio'r cyfnod nesaf (1 awr ar gyfer digwyddiad syml gydag un dosbarth, hyd at 2 awr ar gyfer digwyddiad mwy cymleth gyda mwy o ddysgwyr) yn paratoi ar gyfer eu rolau yn y dathliad.
- Unwaith y mae'r amser paratoi ar ben, cynhaliwch ymarferiad o'r digwyddiad cyfan, o'r seremoni agoriadol, drwy'r elfennau diwylliannol, y gemau neu'r gweithgareddau, ac yna'r seremoni gloi.
- Defnyddiwch y dosbarth cyfan i 'ddatrys' unrhyw broblemau sy'n codi a rhowch ychydig o amser i bob tîm addasu eu cynlluniau os oes angen.

### Rhan 2

- Mae'n bryd i gynnal y dathliad.
- Gallai eich dysgwyr gynnal y dathliad ar gyfer rhai o ddysgwyr iau eich ysgol neu ysgol leol arall.
- Gall eich dathliad gynnwys rhannu seremoni agoriadol a seremoni gloi drwy linc fideo gydag ysgol mewn rhan arall o'r wlad neu mewn gwlad arall yn gyfan gwbl.
- Gallech wahodd rhieni neu aelodau eraill o'r gymuned.
- Gallech wahodd gwestai arbennig i agor neu gloi'r dathliad.

## Canllaw i athrawon

### Rhan 1

- **Wedi'r cyflwyniad cyntaf, dylai'r timoedd ddechrau roi eu syniadau ar waith. Gallai hyn gynnwys: ysgrifennu sgriptiau, dyfeisio ac ymarfer dawnsiau neu ganeuon, paratoi arddangosfeydd, dewis gemau a gweithgareddau, casglu cyfarpar a pharatoi deunyddiau.**
- **Rhowch gefnogaeth i bob tîm i ddatblygu eu syniadau a'u cynlluniau'n llwyddiannus.**
- **Os ydych yn gweithio gyda mwy nag un dosbarth neu mwy nag un ysgol, gwnewch yn siŵr fod y dysgwyr yn cael amser i drafod syniadau gyda'i gilydd, naill ai wyneb yn wyneb neu drwy linciau fideo os yn bosib.**

### Rhan 2

- **Mae'n bryd i gynnal y dathliad.**
- **Ceisiwch sicrhau fod gan y dysgwyr cymaint o berchnogaeth ag sy'n bosib, gan dderbyn bod angen gwahanol lefel o gymorth a chefnogaeth ar ddisgyblion gwahanol oed.**
- **Yn ystod y cynllunio ac yn ystod y dathliad, ceisiwch nodi un enghraifft yr un ar gyfer pob disgybl lle maent wedi dangos un o werthoedd Gemau'r Gymanwlad:**
  - **Dyngarwch (bod yn feddylgar wrth bobl eraill, helpu pobl neu fod yn garedig).**
  - **Tynged (datblygu eu sgiliau a rhoi cynnig ar heriau newydd).**
  - **Cydraddoldeb (ffeindio ffyrdd i wneud yn siŵr fod pawb yn mwynhau profiad cadarnhaol ac yn gallu cymryd rhan a chyfrannu).**
  - **Defnyddiwch ran olaf y Seremoni Gloi i gyflwyno tystysgrifau i'r dosbarth.**

# 6- Adolygu

## Gweithgareddau dysgu

- Cynhaliwch adolygiad gyda'r dosbarth cyfan, gan ddefnyddio'r model: "Beth aeth yn dda?"; " Beth allem ni wneud hyd yn oed yn well y tro nesaf?"
- Rhannwch y dosbarth yn barau i gynnal adolygiad(au) unigol manylach gan ddefnyddio **adnodd R15**:
- "Pa wybodaeth a dealltwriaeth newydd ydw i wedi ei gael?"
- "Pa sgiliau newydd ydw i wedi eu datblygu?"
- Ydw i wedi newid fy marn am unrhyw beth neu wedi newid fy agwedd at unrhyw beth?"

## Canllaw i athrawon

- **Wedi digwyddiad sydd wedi bod, gobeithio, yn her i'w drefnu ond yn brofiad gwerthfawr y mae pawb wedi'u fwynhau, mae'n bwysig fod y dysgwyr yn cymryd rhan mewn rhyw fath o weithgaredd adolygu neu gnoi cil.**
- **Os bu'n ddigwyddiad yn sylweddol (o ran maint ac ymdrech), weithiau mae'n well aros am ddiwrnod cyn cynnal adolygiad - i roi cyfle i'r dysgwyr fwynhau eu llwyddiant a chnoi cil ar eu pen eu hunain am yr hyn y maent wedi ei ddysgu amdanynt eu hunain.**
- **Dangoswch glip fideo V20.**



Ellen Falkner

## Nodiadau

# Adnoddau athrawon


| | |
|---|---|
| R1: Hanes y Gymanwlad | 98 |
| R2: Map o'r Gymanwlad | 99 |
| R3: Siarter y Gymanwlad | 100 |
| R4: Addysg Merched | 101 |
| R5: Barddoniaeth a ysbrydolwyd gan Stori'r Windrush | 103 |
| R6: Cenhedlaeth y Windrush | 106 |
| R7: Ras Gyfnewid Baton y Frenhines a'i daith hir o gwmpas Awstralia a'r Gymanwlad | 107 |
| R8: Cynllunio Baton Gemau'r Gymanwlad 2022 | 110 |
| R9: Bowliau | 111 |
| R10: Boccia | 113 |
| R11: Cynlluniau ar gyfer Seremoni Agoriadol | 115 |
| R12: Cynlluniau ar gyfer Gweithgareddau | 116 |
| R13: Cynlluniau ar gyfer Digwyddiadau Diwylliannol | 117 |
| R14: Cynlluniau ar gyfer Seremoni Gloi | 118 |
| R15: Adolygiad Olaf | 119 |

# R1: Hanes y Gymanwlad

Yn y dechreuad..

Deilliodd y Gymanwlad o'r Ymerodraeth Brydeinig, a oedd ar un adeg yn cynnwys gwledydd yn Asia, Affrica, Ymylon y Môr Tawel, y Caribî a chyfandiroedd America.

Y blynyddoedd cynnar.

Yn 1931, yr enw ar y sefydliad oedd: Y Gymanwlad Brydeinig o Wledydd. Ond, yn 1949 penderfynodd yr arweinwyr ei weddnewid i fod yn sefydliad o 'aelodau rhydd a chyfartal" gan greu'r Gymanwlad fodern.

Daeth Ghana yn aelod yn 1957 – y cyntaf o nifer o wledydd o Affrica a ymunodd â'r Gymanwlad fel gwledydd annibynnol yn y 50au a'r 60au.

Yn 1961 gadawodd De Affrica'r Gymanwlad oherwydd ei pholisi o wahanu pobl ddu a phobl wyn. Datganodd arweinwyr y Gymanwlad eu bod yn cefnogi'r ymgyrch yn erbyn y lleiafrif gwyn a oedd yn rheoli'r wlad.

Yn 1965 cafodd Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad ei chreu. Mae cartref yr Ysgrifenyddiaeth ym Marlborough House yn Llundain a'i nod yw hybu gwerthoedd cyffredin ymysg y gwledydd sy'n aelodau. Mae Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad yn annog aelodau i ddod at ei gilydd i drafod eu pryderon a'u syniadau.

Erbyn heddiw, mae llawer o wledydd eraill - mawr a bach, ym mhob rhan o'r byd, â gwahanol ddiwylliannau. ieithoedd a chrefyddau - yn aelodau o'r Gymanwlad. Yn 2018, fe ail-ymunodd Gambia â'r Gymanwlad, bron i bum mlynedd ar ôl gadael.

Yn yr 1990au, ymunodd gwledydd fel Namibia, Camerŵn a Mosambîc (na fu erioed yn rhan o'r Ymerodraeth Brydeinig) â'r Gymanwlad.

Yn 1994 dychwelodd De Affrica i'r Gymanwlad - yn wlad aml-hiliol a democrataidd, dan arweiniad Nelson Mandela.

Y Frenhines Elizabeth II yw Pennaeth y Gymanwlad. Mae hi hefyd yn Bennaeth y Wladwriaeth ar 16 o wledydd sy'n aelodau o'r Gymanwlad. Mae'r gwledydd eraill naill ai'n weriniaethau neu mae ganddynt eu brenhines neu frenin eu hunain.

Mae tua 60% o'r bobl sy'n byw yn y Gymanwlad yn ifancach na 30 oed. Mae Cyngor Ieuenctid y Gymanwlad yn helpu pobl ifanc i weithio gyda'i gilydd a rhannu syniadau gyda'r bobl sy'n gwneud penderfyniadau.

Oeddech chi'n gwybod bod tua 30% o bobl y byd yn byw yn y Gymanwlad? Mae hynny bron yn ddau biliwn a hanner o oedolion a phlant!

Mae'r Gymanwlad yn deulu bywiog o 53 o wledydd ar draws pob cyfandir a chefnfor.

Mae pobl y Gymanwlad yn grŵp amrywiol iawn o bobl. Mae rhai'n byw ar ynysoedd bach fel Nauru yn y Môr Tawel, ac eraill yn byw mewn gwledydd mawr fel India yn Asia.


Mae pobl y Gymanwlad yn gweithio gyda'i gilydd drwy rannu syniadau, profiadau, sgiliau a gwybodaeth.

Mae'r Gymanwlad yn hybu cyfeillgarwch a pharch rhwng unigolion a gwledydd.

Mae pob un o wledydd y Gymanwlad yn wledydd annibynnol a chyfartal.

# R2: Map o'r Gymanwlad

Y Gymanwlad
**Gysylltiedig**



## Mae 53 o wledydd ym mhob rhan o'r byd yn aelodau o'r Gymanwlad.

Mae'r Gymanwlad yn deulu o wledydd annibynnol sy'n ymestyn ar draws pob cyfandir a chefnfor. Mae 30% o boblogaeth y byd yn byw yng ngwledydd y Gymanwlad - 2.4 biliwn o drigolion. Mae'n deulu o lawer o grefyddau, hiliau a diwylliannau.

## Ydych chi'n gallu enwi gwledydd y Gymanwlad?

| PRIFDDINAS | GWLAD |
|---|---|
| 1 OTTAWA | |
| 2 KINGSTOWN | |
| 3 DELHI NEWYDD | |
| 4 LLUNDAIN | |
| 5 LUSAKA | |
| 6 PORT OF SPAIN | |
| 7 NASSAU | |
| 8 BRIDGETOWN | |
| 9 BELMOPAN | |
| 10 KAMPALA | |
| 11 BASSETERRE | |
| 12 PORT MORESBY | |
| 13 NUKU'ALOFA | |
| 14 NAIROBI | |
| 15 FREETOWN | |
| 16 PORT LOUIS | |
| 17 WELLINGTON | |
| 18 BANDAR SERI BEGAWAN | |
| 19 MAPUTO | |
| 20 DODOMA | |
| 21 MASERU | |
| 22 LILONGWE | |
| 23 SANT JOHN | |
| 24 KUALA LUMPUR | |
| 25 VICTORIA | |
| 26 KINGSTON | |
| 27 VALLETTA | |
| 28 ABUJA | |
| 29 ACCRA | |
| 30 ROSEAU | |
| 31 WINDHOEK | |
| 32 DHAKA | |
| 33 MBABANE | |
| 34 CANBERRA | |
| 35 TARAWA | |
| 36 YAOUNDÉ | |
| 37 NAURU | |
| 38 FUNAFUTI | |
| 39 SANT SIOR | |
| 40 KIGALI | |
| 41 SINGAPÔR | |
| 42 PORT VILA | |
| 43 CASTRIES | |
| 44 PRETORIA | |
| 45 COLOMBO | |
| 46 SUVA | |
| 47 GEORGETOWN | |
| 48 APIA | |
| 49 HONIARA | |
| 50 NICOSIA | |
| 51 GABORONE | |
| 52 ISLAMABAD | |
| 53 BANJUL | |

### Gwledydd y Gymanwlad

- ☐ Antigwa a Barbiwda
- ☐ Awstralia
- ☐ Bahamas, Y
- ☐ Bangladesh
- ☐ Barbados
- ☐ Belîs
- ☐ Botswana
- ☐ Brwnei
- ☐ Camerŵn, Y
- ☐ Canada
- ☐ Cenia
- ☐ Ciribati
- ☐ Cyprus
- ☐ De Affrica
- ☐ Deyrnas Unedig, Y
- ☐ Dominica
- ☐ Fanwatw
- ☐ Gaiana
- ☐ Gambia
- ☐ Ghana
- ☐ Grenada
- ☐ Gwlad Swasi
- ☐ India
- ☐ Jamaica
- ☐ Lesotho
- ☐ Malawi
- ☐ Maleisia
- ☐ Malta
- ☐ Mawrisiws
- ☐ Mosambîc
- ☐ Namibia
- ☐ Nawrw
- ☐ Nigeria
- ☐ Pacistan
- ☐ Papwa Gini Newydd
- ☐ Rwanda
- ☐ Sant Kitts a Nevis
- ☐ Sant Lucia
- ☐ Sant Vincent a'r Grenadines
- ☐ Sambia
- ☐ Samoa
- ☐ Seland Newydd
- ☐ Seychelles
- ☐ Sierra Leone
- ☐ Singapôr
- ☐ Sri Lanca
- ☐ Tansania
- ☐ Tonga
- ☐ Trinidad a Thobago
- ☐ Twfalw
- ☐ Wganda
- ☐ Ynysoedd Fiji
- ☐ Ynysoedd Solomon

Roedd y wybodaeth yma'n gywir adeg ei brintio yn Ionawr 2019.
Mae hwn yn boster am ddim.

Ysgrifenyddiaeth y Gymanwlad
Marlborough House, Pall Mall,
Llundain SW1Y 5HX
Y Deyrnas Unedig
Ffôn: +44(0)20 7747 6386/86 Ffacs: +44(0) 20 7839 9081

facebook.com/commonwealthsec
twitter.com/commonwealthsec

thecommonwealth.org
info@commonwealth.int

**Mae rhagor o wybodaeth am y Gymanwlad i blant ar gael yma: thecommonwealth.org/kids**

# R3: Siarter Y Gymanwlad

Mae’r siarter yn ddatganiad o'r hyn y mae’r Gymanwlad yn credu ynddo, yr hyn y mae’n ceisio ei wneud, a sut y mae’n ceisio cyflawni ei amcanion.

Sut mae’r siarter yma’n cymharu â’r un y gwnaethoch chi ei llunio?

“Mae’r Gymanwlad yn gymdeithas wirfoddol o wladwriaethau annibynnol a chyfartal, ac mae pob un ohonynt yn gyfrifol am eu polisïau eu hunan.

Daw cryfder arbennig y Gymanwlad o gyfuno ein holl amrywiaeth a’n hetifeddiaeth gyffredin o ran iaith, diwylliant a rheolaeth y gyfraith; ac fe’n clymir ynghyd gan ein hanes a’n traddodiadau cyffredin; gan barch at bob gwladwriaeth a'u holl bobloedd; gan y gwerthoedd a’r egwyddorion sy’n gyffredin rhyngom, a’n pryder am y rheini sy’n fregus.

Ein hegwyddorion craidd fel 'Y Gymanwlad' yw: consensws a gweithredu cyffredin, parch gan y naill at y llall, cynwysoldeb, tryloywder, atebolrwydd, cyfreithlonrwydd ac ymatebolrwydd.

Rydym am fod yn Gymanwlad sydd â llais cryf ac sy’n uchel ei pharch yn y byd; sy’n lleisio barn ar faterion o bwys; sy’n cryfhau ac ehangu ei rhwydweithiau; sy’n berthnasol yn fyd-eang ac yn weladwy ledled y byd; ac sy’n ymroi i wella bywydau holl bobl y Gymanwlad.”

# R4: Addysg Merched

**Rhan Un:**

Bob dydd, mae merched yn wynebu rhwystrau i gael addysg.

Mae addysg merched yn fwy na sicrhau bod merched yn gallu mynd i'r ysgol. Mae'n golygu sicrhau bod merched yn cael cyfle i ddysgu a theimlo'n ddiogel wrth wneud hynny yn yr ysgol; yn cael cyfle i gwblhau bob lefel o'u haddysg; yn cael y wybodaeth a meithrin y sgiliau sydd eu hangen arnynt i lwyddo; yn dysgu'r sgiliau bywyd sy'n angenrheidiol i addasu i fyd sy'n newid; yn cael gwneud penderfyniadau am eu bywydau eu hunain; yn cyfrannu i'w cymunedau a'r byd yn gyffredinol.

Mae addysg merched yn flaenoriaeth i'r byd. Mae menywod sydd wedi cael gwell addysg yn dueddol o fod yn fwy gwybodus am faeth a gofal iechyd, yn dueddol o gael llai o blant a phriodi pan maent yn hŷn, ac os ydynt yn dewis bod yn famau mae eu plant yn dueddol o fod yn fwy iach.

Yn ôl amcangyfrifon UNESCO, mae 132 miliwn o ferched ledled y byd sydd ddim yn mynd i'r ysgol. Mae hynny'n cynnwys 34.3 miliwn o ferched oedran cynradd, 30 miliwn oedran ysgol uwchradd isaf, a 67.4 miliwn oedran ysgol uwchradd uchaf. Mewn gwledydd sy'n cael eu heffeithio gan wrthdaro ac ymladd, mae merched fwy na dwywaith yn fwy tebygol o fethu mynd i'r ysgol na merched sy'n byw mewn gwledydd lle nad oes gwrthdaro. Ac mewn llawer o wledydd, o ran y merched hynny sy'n dechrau yn yr ysgol gynradd, dim ond cyfran fach iawn fydd yn cyrraedd yr ysgol uwchradd, a chyfran lai fyth yn cwblhau addysg uwchradd.

**Rhan Dau:**

Tlodi yw un o'r ffactorau sy'n dylanwadu fwyaf ar allu merched i gael at addysg a'i gwblhau. Nid oes yr adnoddau gan gartrefi tlawd i dalu am addysg na'r costau cysylltiedig (ee llyfrau, gwisg ysgol, deunyddiau ysgol a theithio). Mae'n duedd gyffredin mewn cartrefi tlawd lle mae llawer o blant i fuddsoddi yn addysg y bechgyn yn hytrach na'r merched. Ond mae'r cartrefi hynny'n dibynnu hefyd ar help merched gyda gwaith tŷ a gofalu am blant iau ac aelodau eraill o'r teulu. Mae astudiaethau'n dangos yn gyson mai merched sy'n wynebu anfanteision lluosog (fel incwm teuluol isel, byw mewn ardaloedd anghysbell neu ardaloedd lle mae adnoddau'n brin, neu sydd ag anabledd neu sy'n perthyn i grŵp ethno-ieithyddol lleiafrifol) sydd bellaf ar ei hôl hi o ran cael mynediad at addysg a chwblhau eu haddysg.

**Rhan Tri:**

Mae trais hefyd yn ffactor sy'n rhwystro merched rhag cael mynediad at addysg a'i gwblhau. Yn aml mae'n rhaid i ferched gerdded cryn bellter i gyrraedd yr ysgol sy'n cynyddu'r risg o wynebu trais ar sail rhywedd (GBV) gan gynnwys camfanteisio rhywiol, ac aflonyddu a cham-drin rhywiol (SEA/SH); ac mae llawer o ferched yn wynebu trais tra eu bod yn yr ysgol hefyd. Yn ogystal ag effeithio'n ddifrifol ar eu hiechyd meddwl, eu hiechyd corfforol a'u lles yn gyffredinol mae hyn yn arwain at gyfraddau mynychu ysgol is, a chyfraddau uwch o ferched sy'n gadael addysg yn gynnar. Gall beichiogi yn eu harddegau hefyd fod yn ganlyniad i drais neu gamfanteisio rhywiol. Yn aml mae merched sy'n beichiogi yn gorfod wynebu stigma sylweddol a gwahaniaethu yn eu cymunedau. Mae baich stigma o'r fath, ar ben normau anghyfartal o ran rhyw, yn aml yn golygu fod merched yn gadael yr ysgol yn gynnar – heb gyfle i ddychwelyd.

# R4: Addysg Merched

**Rhan Pedwar:**

Mae priodasau plant hefyd yn her ddifrifol. Mae merched sy'n priodi'n ifanc yn llawer mwy tebygol o adael yr ysgol yn gynnar a chwblhau llai o flynyddoedd o addysg na menywod ifanc sy'n priodi'n hwyrach yn eu bywydau. Maent hefyd yn fwy tebygol o gael plant pan fyddant yn iau. Yn ei dro, mae hynny'n effeithio ar addysg ac iechyd eu plant, yn ogystal â'u gallu i ennill bywoliaeth. Yn wir, mae merched sydd wedi derbyn addysg uwchradd hyd at chwe gwaith yn llai tebygol o briodi na'r rheini sydd ag ychydig iawn o addysg neu ddim addysg o gwbl. Yn ôl adroddiad yn 2017, mae dros 41,000 o ferched sy'n iau na 18 oed yn priodi bob dydd.

**Rhan Pump:**

Prinder ysgolion, isadeiledd anigonol ac amgylcheddau aniogel: Yn ogystal â phrinder o ysgolion i bawb eu mynychu (yn enwedig mewn ardaloedd gwledig), mae diffyg dŵr, carthffosiaeth ac adnoddau glanweithdra (WASH) gan gynnwys toiledau ar wahân i fechgyn a merched a chyflenwad dŵr yn gyffredin mewn llawer o ysgolion. Mae diffyg adnoddau sylfaenol mewn llawer o ysgolion yn golygu nad ydynt yn gallu cynnig amgylchedd diogel a chynhwysol – er enghraifft, ffensys, llwybrau wedi'u goleuo, hygyrchedd i bobl ag anableddau. Gall diffyg amgylchedd digonol fod yn rhwystr difrifol sy'n cadw merched rhag mynychu ysgol yn gyson.

Mewn rhai ysgolion, nid yw'r hyn a ddysgir na'r dull addysgu yn rhoi unrhyw ystyriaeth i anghenion merched. Mae'n bosib na fydd athrawon wedi derbyn hyfforddiant digonol na chefnogaeth i'w helpu i leihau rhagfarnau neu dueddiadau ar sail rhyw yn yr ystafell ddosbarth. Efallai nad ydynt wedi cael hyfforddiant i ymdrin â'r heriau y gall merched eu hwynebu mewn ysgol, neu efallai nad ydynt yn teimlo'n gysurus wrth ddelio â heriau o'r fath. Ar ben hynny, gall llyfrau ac adnoddau dysgu atgyfnerthu stereoteipiau negyddol am ferched a menywod.

**Rhan Chwech:**

Mae Covid-19 wedi cael effaith negyddol ar iechyd a lles merched, ac mae perygl gwirioneddol na fydd llawer o ferched yn dychwelyd i'w hysgolion pan fyddant yn ailagor. Mae ymchwil yn dangos fod trais yn erbyn merched a menywod wedi cynyddu yn ystod pandemig Covid-19.

Mae'n debygol y gwelir cynnydd yn nifer y merched a fydd yn gadael yr ysgol yn gynnar. Bydd cyfran fawr o ferched na fydd yn dychwelyd i'r ysgol o gwbl. Mewn rhai achosion annogir merched sydd wedi beichiogi i beidio dychwelyd i'r ysgol – sy'n eu gyrru naill ai i adael yn gynnar, neu i beidio dychwelyd o gwbl. Mae'n fwy na thebygol y bydd cyfrifoldebau llawer o ferched (o ran gwaith tŷ a rhoi gofal) wedi cynyddu yn ystod y cyfnod y bu'r ysgolion ar gau, gan gyfyngu'r amser sydd ar gael iddynt ar gyfer astudio. Pan nad oes rhieni neu oedolion eraill yn y cartref (sydd wedi digwydd yn aml yn ystod y pandemig / o ganlyniad i Covid-19), mae baich y cyfrifoldebau ychwanegol o ran gwaith tŷ a rhoi gofal yn aml syrthio ar ysgwyddau merched – gan leihau'r amser sydd ar gael iddynt astudio.

# R5: Cerddi a ysbrydolwyd gan Stori'r Windrush

Wedi'r Ail Ryfel Byd, roedd Prydain mewn cyflwr gwael. Roedd llawer o ddifrod i'w atgyweirio a llawer o waith ail-adeiladu i'w wneud, a doedd dim digon o bobl i gyflawni'r gwaith. Rhoddodd llywodraeth Prydain wahoddiad i bobl o wledydd yr hen Ymerodraeth Brydeinig (a oedd yn bodoli cyn dyddiau'r Gymanwlad) i ddod i Brydain i helpu gyda'r gwaith ail-adeiladu.

Yn 1948, rhoddwyd yr hawl i drigolion unrhyw drefedigaeth Brydeinig i deithio i Brydain - i fyw a gweithio yma, os oeddent yn dymuno. Ymatebodd nifer o drigolion Jamaica i erthygl ym mhapur The Daily Gleaner a oedd yn cynnig taith i Brydain am £28.10s - i ddod yma i weithio.

Ar 22 Mehefin 1948, glaniodd llong yr Empire Windrush yn nociau Tilbury yn Essex gyda thros 500 o fudwyr o'r Caribî ar ei bwrdd. Yn ystod yr Ail Ryfel Byd roedd y Natsïaid wedi defnyddio'r llong i gario milwyr, ond cafodd ei chipio gan luoedd y Cynghreiriaid ym mis Mai 1945 a'i hail-gynllunio i'w defnyddio gan deithwyr o Brydain. Roedd miloedd o ddynion a menywod o'r trefedigaethau Prydeinig yn y Caribî wedi ymladd dros y Cynghreiriaid , ac roedd llong yr Empire Windrush yn digwydd bod yn y Caribî ar yr adeg honno gan ei bod yn codi milwyr a oedd wedi bod yno am seibiant.

Pan gyrhaeddodd y mudwyr newydd o'r Caribî i Brydain, roedd yn eithaf hawdd iddynt ffeindio swyddi di-grefft. Ond roedd ffeindio rhywle i fyw yn dipyn mwy anodd oherwydd y prinder tai ym Mhrydain wedi'r rhyfel. Roedd eu hamodau byw yn arw ac yn aml byddent yn cael eu trin yn wael iawn.

**Hinglan Cole (England's cold)**

Oh boy, England is cold! It is so cold!

Frost in the morning, snow at midday and black fog at night time. England is so cold!

I left hot Jamaica to die of cold here?

Frostbite is killing my fingers and when I walk I slip and tumble in the snow many many times,

inside the house it is worse,

I have to wrap up with hot water bottles, hat, socks, dressing gown, two sheets and twist and turn all night long.

In the morning when I lift my head from under the sheets the amount of smoke that come out my mouth you would think that I was on fire.

In the kitchen four people have one ring each on the stove to cook on.

I have to put money in the meter to get a bath and the Indian man who I rent from is watching me closely.

I thank God that they deliver milk to your door, I don't know how I'm going to cope because England is cold cold cold.

*gan Denniston Stewart*

- **Dewiswch rai o'r geiriau a'r ymadroddion y mae'r bardd yn eu defnyddio i ddisgrifio ei argraffiadau cyntaf o Brydain. Ydy ei farn yn ffafriol? Beth sy'n gwneud i chi feddwl hynny?**

- **Petaech chi'n cael cyfle, pa dri chwestiwn hoffech chi eu gofyn i'r bardd?**

# R5: Cerddi a ysbrydolwyd gan Stori'r Windrush

Windrush Child

Behind you

Windrush child

palm trees wave goodbye

above you Windrush child seabirds asking why

around you Windrush child

blue water rolling by

beside you

Windrush child

your Windrush mum and dad

think of storytime yard and mango mornings

and new beginnings

doors closing and opening

will things turn out right? At least the ship will arrive in midsummer light and you Windrush child

think of grandmother

telling you don't forget to write

and with one last hug

walk good walk good

and the sea's wheel carries on spinning

and from that place England you tell her in a letter

of your Windrush adventure

stepping in a big ship

not knowing how long the journey or that you're stepping into history

bringing your Caribbean eye

to another horizon

grandmother's words your shining beacon

learning how to fly

the kite of your dreams in an English sky

Windrush child

walking good walking good in a mind-opening meeting of snow and sun

*gan John Agard*

- **Am beth y mae’r gerdd yma’n sôn?**
- **Pa eiriau neu ymadroddion yn y gerdd sy’n dweud wrthoch chi pa bethau mae plentyn y Windrush wedi gorfod eu gadael ar ôl yn y Caribî?**
- **Pa fath o le oedd y Caribî?**
- **Pwy fydd y plentyn yn gweld eu heisiau ar ôl gadael y Caribî?**

# R6: Cenhedlaeth y Windrush




- Rhannwch y dosbarth yn grwpiau bach. Gofynnwch iddyn nhw greu llun wedi'i rewi o grŵp o deithwyr ar fwrdd y Windrush wrth i'r llong gyrraedd Dociau Tilbury. Ar arwydd penodol, tapiwch bob dysgwr yn ei dro ar ei ysgwydd, a gofynnwch iddynt ddatgelu beth sy'n mynd drwy feddwl y cymeriad y maent yn ei bortreadu ar yr union foment honno.

- Mae ffotograffau'n dangos mai dim ond un cês bach, neu 'grip', oedd gan bob teithiwr i gario eu holl eiddo wrth iddynt adael eu cartrefi i deithio i Loegr. Gofynnwch i'r dysgwyr pa bethau maen nhw'n credu y byddai dyn, menyw neu blentyn wedi eu pacio yn eu cesys.





# R7: Ras Gyfnewid Baton y Frenhines – a’i daith hir o gwmpas Awstralia a’r Gymanwlad.

Mae wedi cyfnewid dwylo filoedd o weithiau ar ei siwrne o 40,000 cilomedr dros 100 diwrnod o gwmpas Awstralia.

Dechreuodd taith Baton y Frenhines yn Awstralia ar Noswyl Nadolig 2017. Cafodd ei gario ar hyd a lled y wlad nes cyrraedd seremoni agoriadol Gemau’r Gymanwlad ar 4 Ebrill. Yn ystod ei siwrne faith mae wedi teithio drwy drefi gwledig diarffordd ac wedi ymddangos mewn rasys ceffylau, pencampwriaethau tennis, gemau criced, fforestydd glaw a thraethau.

Cyrhaeddodd ei gyrchfan, sef Main Beach ar Yr Arfordir Aur ar 4 Ebrill 2018 ar gyfer agoriad swyddogol Gemau’r Gymanwlad.

Mae’r baton wedi teithio o gwmpas y byd hefyd, gan ddechrau ei siwrne ym Mhlas Buckingham dros flwyddyn yn ôl wedi i’r Frenhines osod neges arbennig y tu mewn iddo – wedi ei ysgrifennu ar bapur wedi ei wneud o spinifex o Awstralia.

Erbyn Ebrill 4 roedd Baton y Frenhines wedi teithio 230,000 o gilomedrau drwy 70 o wledydd a thiriogaethau’r Gymanwlad dros 388 o ddiwrnodau.

***Y cyn reidiwr beic o Awstralia, Anna Meares, yn derbyn y baton gan y Frenhines ym Mhlas Buckingham ym mis Mawrth 2017.***



(AP: Toby Melville)

# R7: Ras Gyfnewid Baton y Frenhines – a'i daith hir o gwmpas Awstralia a'r Gymanwlad.

Cafodd y baton ei gynllunio i adlewyrchu 'egni di-ddiwedd yr Arfordir Aur'.

Cafodd ei gynllunio a'i gynhyrchu gan gwmni bach, Designworks, o West End yn Brisbane. Cyn llunio'r baton, cafwyd cyfnod hir o ymgyngori cymunedol gyda grwpiau brodorol, artistiaid, achubwyr bywyd a gweithwyr gofal iechyd - i wneud yn siŵr y byddai'n ffitio dwylo o wahanol feintiau, a'i fod yn hawdd i'w addasu ar gyfer pobl ag anabledd.

Cafodd aelodau'r tîm cynllunio eu hysbrydoli gan fyrddau syrffio a llongau syrffio, ac roeddynt yn awyddus i gyfleu'r teimlad o lithro dros ddŵr. Mae'r darnau metal yn dynwared yr haul yn taro nendyrau'r Arfordir Aur wrth i'r haul wawrio a machlud.

***Cymuned Palm Island yng ngogledd Queensland yn dathlu wrth i'r baton gyrraedd, cyn iddo deithio ymlaen i'r Arfordir Aur.***



(Cyfrannwr agored ABC - LGAQ )

Cafodd y baton ei lunio o bren macademia brodorol a phlastig wedi ei adennill o ddyfrffyrdd a thraethau'r Arfordir Aur. Hefyd, mae technoleg GPS wedi'i blannu yn y baton fel y gellir dilyn ei drywydd wrth iddo deithio o gwmpas Awstralia a'r byd.

Mae ymyl dur gloyw'r baton yn elfen ychwanegol, a elwir yn 'stringer'. Mae codau alpha tri-digid holl wledydd a thiriogaethau'r Gymanwlad wedi eu hysgythru â laser arno.

Dywedodd Matthew Thompson, un ar ddeg oed, o ogledd Queensland fod cario'r baton yn rhywbeth y byddai'n falch ohono am weddill ei oes.

# R7: Ras Gyfnewid Baton y Frenhines – a'i daith hir o gwmpas Awstralia a'r Gymanwlad.

"Pan dych chi'n rhedeg mae e'n teimlo'n ysgafn iawn, ond pan dych chi'n cerdded mae ganddo bŵer gwahanol," dywedodd.

***Roedd Matthew Thompson yn teimlo fel "un mewn miliwn" pan gafodd gario'r baton yn Pentland yng ngogledd Queensland.***




(llun gan: CG2018 )

Cafodd y rhai a gariodd y baton eu dewis am eu bod yn "arwyr lleol". Cawsant eu henwebu gan eu cyfoedion am yr hyn y maent wedi'i gyflawni ac am eu cyfraniad i'w cymunedau.

Dywedodd Matt Bushby, sy'n dad i chwech o blant, ei fod yn credu mai twyll oedd yr holl beth pan dderbyniodd e-bost yn ei wahodd i gario'r baton.

Cafodd Mr Bushby ei enwebu gan un o aelodau ei gymdeithas pêl feddal leol yn Karratha, Gorllewin Awstralia. Daliodd Mr Bushby ati i hyfforddi timoedd hyd yn oed ar ôl colli ei swydd yn 2015.

Er ei fod yn amser caled iddo, fe barhaodd Mr Bushby i wirfoddoli a chyfrannu i'w gymuned.

"Mae angen i blant y wlad gredu ynddyn nhw eu hunain....mae angen iddynt gael y cyfle yna i ddisgleirio," dywedodd.

# R8: Cynllunio Baton Gemau’r Gymanwlad 2022

Mae Pwyllgor Trefnu Birmingham ar gyfer Gemau’r Gymanwlad Cyf yn bwriadu apwyntio cyflenwr i gynllunio, peiriannu a chynhyrchu Baton y Frenhines ar gyfer Ras Gyfnewid Baton y Frenhines Gemau’r Gymanwlad Birmingham 2022.

Mae Ras Gyfnewid Baton y Frenhines yn un o raglenni mwyaf cyffrous Gemau’r Gymanwlad sy’n llwyddo i gyrraedd a chyffwrdd pobl ledled y Gymanwlad. Ras Gyfnewid Baton y Frenhines yw’r digwyddiad sy’n codi’r llen ar y Gemau - traddodiad a ddechreuodd yng Ngemau’r Gymanwlad yng Nghaerdydd yn 1958.

Yn draddodiadol, mae taith y Baton yn dechrau ym Mhlas Buckingham lle mae Ei Mawrhydi’r Frenhines Elizabeth II yn gosod ei neges i’r Gymanwlad y tu mewn i’r Baton. Yna mae’r Frenhines yn pasio’r Baton i’r cyntaf o filoedd o gludwyr a fydd yn cario’r neges yn ddiogel ar draws y Gymanwlad ar daith sy’n dathlu’r Gymanwlad, cymunedau a chwaraeon. Ar ddiwedd y daith epig yma, mae’r Baton yn cyrraedd y Seremoni Agoriadol , lle mae neges y Frenhines yn cael ei darllen gerbron y llu o athletwyr - gan ddatgan yn swyddogol fod Gemau’r Gymanwlad wedi agor.

Y Baton yw curiad calon y ras a'r daith arbennig hon. Wrth iddo gael ei basio o berson i berson mae’r Baton yn dathlu'r Gymanwlad, yn tanio brwdfrydedd yr hen a'r ifanc, cynyddu ein hymdeimlad o gysylltiad a chyd-ddealltwriaeth, a bwrw golau ar Birmingham a Gorllewin Canolbarth Lloegr yn y misoedd cyn i’r Gemau ddechrau.

Mae Pwyllgor Trefnu Birmingham ar gyfer Gemau’r Gymanwlad Cyf yn bwriadu apwyntio cyflenwr i gynllunio, peiriannu a chynhyrchu Baton y Frenhines ar gyfer Ras Gyfnewid Baton y Frenhines Gemau’r Gymanwlad Birmingham 2022.

Bydd gofyn i’r cyflenwr ddatblygu cynllun creadigol ar gyfer y Baton, yn ogystal â pheiriannu, gweithgynhyrchu a datblygu cynllun i ofalu am y baton a’i wasanaethu.

Mae’r Pwyllgor Trefnu’n edrych am y dulliau mwyaf arloesol a chreadigol o gynllunio a chynhyrchu’r Baton.



Batonau o Gemau blaenorol

# R9: Bowliau

## Bowlio Ceilys

### Cyflwyniad sydyn

Bydd y gêm yma'n galluogi'r chwaraewyr i ddysgu rholio pêl tuag at darged penodol - i geisio bwrw cymaint o geilys i lawr gydag un rholiad o'r bêl.

### Dechrau arni

- Gosodwch y ceilys bedwar metr o’r llinell rholio.
- Mae’r chwaraewyr yn taflu ceiniog (neu rywbeth tebyg) i benderfynnu pwy sy’n mynd yn gyntaf. Yna bydd y chwaraewyr yn cymryd eu tro i rolio.
- Mae pob chwaraewr yn cael dwy bêl.
- Maen nhw'n rholio’r bêl gyntaf at y targed.
- Maen nhw'n rholio’r ail bêl at y targed.
- Cyfrwch nifer y ceilys sydd wedi cael ei bwrw i lawr – pwynt yr un am bob un sydd i lawr.

### Iechyd a Diogelwch

- Dylid defnyddio peli meddal/peli tennis.
- Gwnewch yn siŵr nad oes peli sbâr neu beli rhydd ar hyd y llawr yn y man chwarae.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn aros i gymryd eu tro.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn rholio eu bowliau tua’r targed gan ddefnyddio dull dan ysgwydd (underarm) – dim taflu.
- Rhaid i’r 'maeswr' aros nes bod y ‘bowliwr’ wedi rholio’r ddwy bêl cyn gosod y ceilys yn ôl yn eu lle.

### Cyfarpar

- Dau chwaraewr – un bowliwr ac un maeswr.
- Man chwarae llyfn a gwastad.
- Tâp – i ddynodi’r man chwarae.
- Tâp/marciau i ddangos lle y dylid gosod y ceilys.
- Pêl dennis / pêl feddal.
- Chwech o ‘geilys’ – gall y rhain fod yn gonau neu’n wenoliaid (shuttlecocks) neu bethau tebyg.

## Bowlio Llinell

### Cyflwyniad sydyn

- Bydd y gêm yma'n galluogi'r chwaraewyr i ddysgu rholio peli’n gywir ac union, a datblygu sgiliau gweithio fel tîm - i geisio ffurfio’r ‘neidr’ hiraf.

### Dechrau arni

- Marciwch y man chwarae gyda sianeli 5m ar gyfer pob tîm.
- Ar ôl gweld/clywed arwydd, mae’r chwaraewr cyntaf ym mhob tîm yn rholio’r bêl fwyaf.
- Os yw’r bêl fwyaf yn rholio i sianel y tîm arall, rhaid rholio’r bêl eto.
- Ar ôl arwydd, mae chwaraewr arall yn rholio ail bêl.
- Mae’r chwarae’n parhau nes bod pob aelod o’r tîm wedi rholio eu peli.
- Yr enillwyr yw’r tîm sydd â’r ‘neidr hiraf (caiff ei mesur mewn llinell syth o’r pen i’r gynffon). Pedwar neu ragor o chwaraewyr ym mhob tîm.

### Iechyd a Diogelwch

- Dylid defnyddio peli meddal / peli tennis.
- Sicrhewch nad oes peli sbâr neu beli rhydd ar hyd y llawr yn y man chwarae.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn aros i gymryd eu tro.
- Rhaid i’r gêm stopio tra bod chwaraewyr yn mynd i nôl unrhyw beli ‘coll’.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn rholio eu bowliau tua’r targed gan ddefnyddio dull dan ysgwydd (underarm) – dim taflu.
- Rhaid i’r chwaraewyr aros nes bod pob chwaraewr wedi rholio eu pêl a bod y ‘neidr’ hiraf wedi cael ei mesur cyn mynd i nôl eu peli o’r man chwarae/sgorio a dychwelyd yn barod ar gyfer y gêm nesaf.

### Cyfarpar

- Pedwar neu ragor o chwaraewyr ym mhob tîm.
- Un bêl feddal neu bêl o faint canolig i bob tîm.
- Un bêl llai o faint ar gyfer pob chwaraewr ee pêl dennis.
- Man chwarae llyfn a gwastad.
- Conau marcio a thâp i ddangos ffiniau’r man chwarae gan gynnwys llinell daflu – i ddangos y pwynt agosaf o le y gall chwaraewyr rolio eu peli.
- Tâp mesur neu ffon fesur.

# R9: Bowliau

**Rholiobowlio**

**Cyflwyniad sydyn**

- Bydd y gêm yma'n galluogi'r chwaraewyr i ddysgu rholio pêl ‘fowliau’ yn gywir at darged penodol.

**Dechrau arni**

- Gosodwch darged ar y llawr – er enghraifft:
> Mat sgorio – fel bwrdd sgorio saethu bwa saeth.
> Sgwâr wedi’i farcio â thâp masgio.
> Sgwâr wedi’i farcio â chonau / gwenoliaid neu rywbeth tebyg.
- Yn ddelfrydol dylai’r targed fesur un metr sgwâr.
- Mae angen nodi'r parthau sgorio ar y targed – y parth allanol yw’r mwyaf - ond hwn sydd â'r sgôr lleiaf (1); y parth (maint canolig) canol (sgôr o 5); y parth lleiaf, yn y canol, sydd â’r sgôr mwyaf (10).
- Mae’r chwaraewyr yn sefyll pum metr o’r targed – awgrymir eu bod yn sefyll y tu ôl i linell wedi’i marcio ar y llawr, neu rywbeth tebyg.
- Yn eu tro, mae’r chwaraewyr yn ‘rholio’ eu peli bowliau.
- (dull dan ysgwydd) tuag at y targed – gall y rhain fod yn beli tennis neu'n beli crwn o faint tebyg.
- Mae’r pwyntiau a sgorir yn dibynnu ar ble mae’r bêl yn glanio – yn ôl parthau sgorio’r targed.
- Mae'r holl bwyntiau'n cael eu cyfrif ar ddiwedd y gêm.

**Rheolau sydyn**

- Mae’r chwaraewyr yn taflu ceiniog (neu rywbeth tebyg) i benderfynu pwy sy’n mynd yn gyntaf.
- Mae pob chwaraewr yn cael deg cynnig.
- Yr enillydd yw’r chwaraewr sydd wedi sgorio’r nifer fwyaf o bwyntiau ar ôl deg rholiad.
- Oes yw’r sgôr yn gyfartal – mae’r ddau chwaraewr yn parhau i rolio un bêl yr un nes bod un ohonynt yn llwyddo i sgorio mwy gyda’i bêl na’r llall.

**Iechyd a Diogelwch**

- Dylid defnyddio peli meddal / peli tenis.
- Sicrhewch nad oes peli sbâr neu beli rhydd ar hyd y llawr yn y man chwarae.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn aros i gymryd eu tro.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn rholio eu bowliau tua’r targed gan ddefnyddio’r dull dan ysgwydd (underarm) – dim taflu.
- Rhaid i’r chwaraewyr aros nes eu bod wedi cwblhau eu ‘tro’ cyn mynd i nôl y peli o’r targed/man sgorio, a’u pasio i’r chwaraewr nesaf.

**Cyfarpar**

- Peli – peli tennis / peli meddal.
- Targed sgorio neu ddeunydd i greu man targed (tâp / gwenoliaid).
- Siart sgorio / pennau.
- Ramp (i helpu chwaraewyr ag anableddau)

**Bowlio mewn Parau ('Bowldova')**

**Cyflwyniad sydyn**

- Mae’r gêm yma’n ffordd o gyflwyno’r chwaraewyr i gamp ‘bowliau’ gan y byddant yn chwarae mewn parau i geisio rholio eu peli’n agosach i’r targed na’u gwrthwynebwyr.

**Dechrau arni**

- Pedwar o chwaraewyr (yn chwarae mewn dau bâr).
- Man chwarae llyfn a gwastad – maint: 8m x 3m.
- Pob chwaraewr yn cael dwy bêl yr un h.y. dwy bêl denis yr un – yn ddelfrydol, peli gwahanol liw i’r naill bâr a’r llall.
- Un bêl darged ee pêl griced.
- Gosodir y bêl darged chwe metr o’r llinell rholio.
- Mae’r chwaraewyr yn taflu ceiniog (neu rywbeth tebyg) i benderfynu pa dîm sy’n mynd yn gyntaf.
- Mae pob chwaraewr yn ei dro’n rholio un bêl ar y tro (un chwaraewr o’r naill dîm, yna un o’r tîm arall) tuag at y targed nes bod pob chwaraewr wedi rholio dwy bêl yr un.
- Mae pob tîm yn sgorio un pwynt am bob un o’u peli sy’n agosach at y targed na phêl agosaf (at y targed) eu gwrthwynebwyr. Felly’r sgôr uchaf sy’n bosib i bob tîm ym mhob gêm yw pedwar pwynt. Chwaraewch bedair gêm gyda phob chwaraewr yn cymryd ei dro i fynd yn gyntaf.

**Iechyd a Diogelwch**

- Dylid defnyddio peli meddal / peli tennis.
- Gwnewch yn siŵr nad oes peli sbâr neu beli’n cael eu gadael yn rhydd o gwmpas y man chwarae.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn aros i gymryd eu tro.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn rholio eu bowliau tua’r targed gan ddefnyddio’r dull dan ysgwydd (underarm) – dim taflu.
- Rhaid i’r chwaraewyr aros nes eu bod wedi cwblhau eu ‘tro’ cyn mynd i nôl y peli o’r man sgorio cyn dychwelyd i gornel eu tîm - yn barod ar gyfer y gêm nesaf.

**Meddwl yn dactegol**

- Beth allwch chi ei wneud i sgorio’r nifer fwyaf o bwyntiau – neu leihau sgôr eich gwrthwynebwyr? A oes gwell cyfle gyda chi i sgorio os ydych yn bowlio'n gyntaf...neu'n olaf?

# R10: Boccia

## Blastio'r Bêl

### Cyflwyniad sydyn

- Mae'r gêm yma'n helpu chwaraewyr i ddatblygu sgiliau i gyfeirio pêl yn gryf a chywir. Mae'r chwaraewyr yn anelu at bêl traeth sydd wedi'i gosod mewn cylch neu gylchyn (hoop) targed. Nod y gêm yw bwrw'r bêl traeth allan o'r cylch / cylchyn.

### Dechrau arni

- Gosodwch y cylchyn, neu marciwch y cylch rhwng y llinell 'V' a chefn y cwrt.
- Gosodwch bêl traeth (neu bêl ysgafn debyg) yn y cylchyn /cylch.
- Yn eu tro, mae'r chwaraewyr yn cyfeirio peli boccia i geisio bwrw'r bêl traeth allan o'r cylchyn / cylch; rhoddir un pwynt i'r chwaraewr/tîm am bob ergyd lwyddiannus.
- Ar ôl nifer penodedig o 'gymalau' (rowndiau lle mae pawb yn cael cyfeirio un bêl boccia yr un) y tîm â'r mwyaf o bwyntiau sy'n ennill!

### Iechyd a Diogelwch

- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw beli sbâr neu beli rhydd wedi'u gadael ar y llawr yn y man chwarae.
- Gwnewch yn siŵr fod y chwaraewyr yn aros i gymryd eu tro a'u bod i gyd yn cyfeirio'u peli i'r un cyfeiriad tuag at y targed.

## Parth Sgorio

### Cyflwyniad sydyn

- Mae'r gêm yma'n defnyddio targed mwy o faint – i helpu'r chwaraewyr i ffocysu a defnyddio gwahanol ddulliau o anelu. Gellir defnyddio'r gêm fel cystadleuaeth unigol neu gallwch ddechrau cynghrair.

### Dechrau arni

- Defnyddiwch darged llawr mawr neu marciwch darged mawr ar y llawr.
- Mae pob aelod o'r tîm yn cael yr un nifer o beli, ac mae'r tri sgôr uchaf yn cael eu cyfuno i greu cyfanswm.
- Cyfrwch holl sgoriau unigolion y tîm i gyrraedd cyfanswm sgôr y tîm.

### Iechyd a Diogelwch

- Cyfeiriwch y chwarae tuag at y wal, oddi wrth y chwaraewyr eraill.

# R10: Boccia

**Golff Boccia**

### Cyflwyniad sydyn

- Mae'r chwaraewyr yn cynllunio cwrs o dyllau sy'n hygyrch i bawb. Yna chwareir rowndiau o 'golff' gan ddefnyddio cyfarpar addas.

### Dechrau arni

- Gosodwch nifer o 'dyllau' targed yn eu lle.
- Gellir gosod rhwystrau o gwmpas y cwrs ee. matiau (fel rhwystrau tywod (bunkers) a chylchynnau (fel rhwystrau dŵr).
- Mae'r chwaraewyr yn mynd o gwmpas y cwrs gan geisio gorffen gyda'r sgôr isaf bosib ee. syth i mewn i'r twll = 'twll mewn un'.
- Gellir dyfarnnu pwyntiau cosb am fwrw coed neu lanio yn y dŵr.
- Mae sgoriau unigol pawb yn cael eu cyfrif at ei gilydd i greu cyfanswm ar gyfer y tîm.

### Iechyd a Diogelwch

- Cadwch allan o'r man chwarae pan mae peli'n cael eu cyfeirio ('taflu').
- Rhowch ystyriaeth i siâp y cwrs i wneud yn siŵr nad all chwaraewyr gael eu bwrw gan beli.

**Boccia 12**

### Cyflwyniad sydyn

- 'Boccia 12' yw'r fersiwn fyrrach swyddogol o Boccia a gafodd ei datblygu gan 'Boccia England'.

### Dechrau arni

- Mae fersiwn fyrrach y gêm yn debyg i'r fersiwn lawn – gan ddefnyddio: yr un cwrt (12.5m x 6m) neu gwrt badminton wedi'i addasu.
- Defnyddir peli Boccia arferol / safonol.
- Mae 'Boccia 12' (i dimoedd) yn cynnwys dau dîm o dri chwaraewr – y tîm coch a'r tîm glas. Maent yn chwarae dau 'gymal' (end). Gall dau bâr (2 yn erbyn 2) neu ddau unigolyn (1 yn erbyn 1) chwarae yn erbyn ei gilydd hefyd.
- Mae cymal yn dod i ben pan fydd pob un o'r 13 pêl sydd yn y gêm (un bêl darged wen (y 'jac'), chwech o beli coch, chwech o beli glas) wedi cael eu chwarae.
- Yn y fersiwn o 'Boccia 12' ar gyfer timoedd, mae pob tîm yn cael chwarae chwe phêl – dwy bêl yr un gan bob aelod o'r tîm.

# R11: Cynllunio Seremoni Agoriadol

Pwy yw aelodau eich tîm cynllunio ar gyfer eich Seremoni Agoriadol?

Faint o amser sydd wedi cael ei roi i chi ar gyfer y Seremoni Agoriadol?

**Rhestr o bethau i'w cynnwys yn y Seremoni Agoriadol:**

- Gair o groeso i'r holl gystadleuwyr, pawb sy'n gwylio, a gwesteion arbennig.
- Gwybodaeth bwysig am ddiogelwch.
- Esboniad am beth y gall bobl ei ddisgwyl yn ystod eich gŵyl / dathliad arbennig.
- Datganiad am y gwerthoedd pwysig y mae eich gŵyl yn eu dathlu (dyngarwch, tynged, cydraddoldeb ac unrhyw rai o werthoedd eich ysgol).
- Perfformiad sy'n dathlu eich cymuned neu eich diwylliant – dawns, cerdd, cyflwyniad neu deyrnged, cân.

**Defnyddiwch y tabl yma i gynllunio eich seremoni agoriadol yn fwy manwl:**

| Gweithgaredd | Faint o bobl sydd eu hangen arnoch? | Pa gyfarpar sydd ei angen arnoch? | Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# R12: Cynlluniau ar gyfer gweithgareddau

Pwy yw aelodau eich tîm ar gyfer cynllunio'r gweithgareddau?

Faint o amser sydd wedi cael ei roi i chi ar gyfer y gweithgareddau?

**Rhestr o bethau i'w gwirio ar gyfer y gweithgareddau:**

- Ydy’r gweithgareddau’n ddiogel ac yn addas ar gyfer y bobl a fydd yn cymryd rhan ynddynt?
- Ydych chi wedi gwneud y defnydd gorau o’r lle / lleoliad a’r cyfarpar sydd ar gael i chi?
- Ydych chi wedi cynllunio gweithgareddau sy’n gynhwysol – gweithgareddau sy’n ystyried anghenion pawb a darparu ar eu cyfer?
- Ydych chi wedi trefnu eich gweithgareddau mewn ffordd sy’n cadw pawb yn brysur a sicrhau fod pawb yn teimlo’n rhan o’r hyn sy’n mynd ymlaen?
- Oes gyda chi gymysgedd dda o wahanol fathau o weithgareddau?

**Ceisiwch sicrhau fod pawb yn cymryd rhan ac yn brysur yn gwneud rhywbeth am gymaint o’r amser ag sy’n bosib. Gallwch rannu’r lleoliad ar gyfer y gweithgareddau a rhannu’r bobl sy’n cymryd rhan - er mwyn gallu cynnal y gweithgareddau i gyd ar yr un pryd. Defnyddiwch y tabl yma i ddarlunio sut a lle y bydd y gweithgareddau’n digwydd:**

# R13: Cynlluniau ar gyfer Digwyddiadau Diwylliannol

Pwy yw aelodau eich tîm ar gyfer cynllunio'r digwyddiadau diwylliannol?

Faint o amser sydd wedi cael ei roi i chi ar gyfer y digwyddiadau diwylliannol?

**Rhestr o bethau i'w gwirio ar gyfer y Digwyddiadau Diwylliannol:**

- Oes gyda chi weithgareddau sy'n dathlu eich diwylliant a threftadaeth leol – fel dawnsiau, cerddi neu ganeuon?
- Oes gyda chi arddangosfa sy'n dangos a rhannu'r hyn y mae eich dosbarth wedi ei ddysgu am y Gymanwlad?
- Efallai y gallech ddangos gwisgoedd traddodiadol pobl leol neu gynnig bwydydd lleol i bobl eu profi?
- A fydd aelodau o'ch tîm a'r gael i dynnu ffotograffau, gwneud ffilmiau/fideos, cynnal cyfweliadau gyda'r cystadleuwyr a'r bobl sy'n gwylio?

**Defnyddiwch y tabl yma i gynllunio eich digwyddiadau diwylliannol yn fwy manwl:**

| Gweithgaredd | Faint o bobl sydd eu hangen arnoch? | Pa gyfarpar sydd ei angen arnoch? | Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# R14: Cynlluniau ar gyfer Seremoni Gloi

Pwy yw aelodau eich tîm ar gyfer cynllunio'r Seremoni Gloi?

Faint o amser sydd wedi cael ei roi i chi ar gyfer y Seremoni Gloi?

**Rhestr o bethau i'w cynnwys yn y Seremoni Gloi:**

- Diolchiadau – i'r cystadleuwyr, pawb sydd wedi gwylio a gwesteion arbennig.
- Diolchiadau – i bawb sydd wedi helpu i drefnu'r ŵyl.
- Cerdd, cyflwyniad, araith neu gân sy'n dathlu gwerthoedd eich gŵyl.
- O bosib – ymddangosiad gan eich gwestai arbennig a/neu 'gair i gloi' ganddynt.
- Datganiad i Gloi'r Ŵyl – yn annog pawb i barhau i gymryd rhan mewn chwaraeon, bod yn ddinasyddion cadarnhaol a chynnal gwerthoedd yr ŵyl.

**Defnyddiwch y tabl yma i gynllunio eich seremoni gloi yn fwy manwl:**

| Gweithgaredd | Faint o bobl sydd eu hangen arnoch? | Pa gyfarpar sydd ei angen arnoch? | Faint o amser fydd hyn yn ei gymryd? |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# R15: Adolygiad Olaf

Rydych yn mynd i gnoi cil ar yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu wrth gyflawni'r gyfres yma o weithgareddau i nodi Gemau'r Gymanwlad 2022.

Byddwch wedi dysgu pentwr o ffeithiau am hanes y Gymanwlad a'i thrigolion. Gobeithio hefyd y byddwch wedi cynyddu eich dealltwriaeth o'r amrywiaeth o wledydd a phobl sy'n rhan o'r Gymanwlad. Gobeithio eich bod wedi dod i ddeall mwy am ymdrechion pobl i geisio sicrhau tegwch a chael yr addysg y mae gan bawb hawl i'w chael.

Byddwch wedi datblygu sgiliau newydd hefyd – fel ymchwilydd, model rôl, ac arweinydd.

Nawr mae'n bwysig i feddwl am bopeth yr ydych wedi ei ddysgu fel y gallwch ddefnyddio'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth a'r sgiliau newydd yma mewn rhannau eraill o'ch gwaith ysgol a thrwy gydol gweddill eich bywyd.

Gweithiwch gyda phartner – a gofynnwch y tri chwestiwn isod iddyn nhw. Gwnewch nodyn o'r hyn y maent yn ei ddweud. Yna, ar ôl i chi orffen eich adolygiad, rhowch y daflen yma iddynt. Bydd eich partner yn gallu gweld y cynnydd y maent wedi ei wneud ers dechrau'r gwaith yma.

Efallai y bydd angen i chi roi ychydig o help iddynt drwy feddwl am enghreifftiau neu drwy ofyn cwestiynau eraill hefyd. Peidiwch â gadael iddyn nhw ddweud nad ydynt wedi gwneud unrhyw gynnydd o gwbl!.

- **"Pa wybodaeth a dealltwriaeth newydd ydw i wedi ei gael?"**
- **"Pa sgiliau newydd ydw i wedi eu datblygu?"**
- **"Ydw i wedi newid fy marn am unrhyw beth neu wedi newid fy agwedd at unrhyw beth?"**

Prif Weinidog y Deyrnas Unedig, Boris Johnson, yw Cadeirydd-mewn-Grym presennol y Gymanwlad, ac yn 2022 bydd Gemau'r Gymanwlad yn cael eu cynnal yn Birmingham yn y Deyrnas Unedig. Mewn ymateb, mae'r British Council yn darparu cyfres o weithgareddau a fydd yn cysylltu pobl ledled y Gymanwlad.

Un o amcanion yr adnodd yma i ysgolion yw creu cysylltiadau rhwng pobl ifanc o gylch gwerthoedd cyffredin y Gymanwlad; cefnogi uchelgais y Deyrnas Unedig i wneud daioni drwy ein ffocws ar addysg merched a chynhwysiant; dangos arweiniad y Deyrnas Unedig yn y Gymanwlad, a hyrwyddo Prydain Fyd-eang.

Bydd yr adnodd yma ar gael yn ddigidol ar gyfer pob un o wledydd y Gymanwlad. Bydd ei rhaglen bartner, Cysylltiadau'r Gymanwlad, yn gefeillio 120 o ysgolion ar draws y Gymanwlad. Law yn llaw â'r amcanion uchod, bydd rhaglen Cysylltiadau'r Gymanwlad hefyd yn cefnogi'r gwaith o godi'r gwastad yn y Deyrnas Unedig gan gyrraedd 60 o ysgolion yn Birmingham, Coventry, Dudley, Solihull, Walsall a Wolverhampton.

Gyda chefnogaeth yr Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid